# Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

## Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2010-11

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru Medi 2011

Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | | 3 |
| Sylwebaeth gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Chynnal Cymru | | 4 |
| Pennod 1 | Datblygu Cynaliadwy – Prif Egwyddor Drefniadol | 8 |
| Pennod 2 | Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy | 12 |
| Pennod 3 | Cynnal yr Amgylchedd | 20 |
| Pennod 4 | Economi Gynaliadwy | 25 |
| Pennod 5 | Cymdeithas Gynaliadwy | 32 |
| Pennod 6 | Lles Cymru | 39 |
| Adroddiad Cyfrif am Gynaliadwyedd – Llywodraeth Cymru 2010-11 | | 45 |


Dyma Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, a luniwyd dan adran 79(6)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**Rhagair y Gweinidog**



Rwy'n falch iawn o allu cyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Ddatblygu Cynaliadwy ers dod yn Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, er mai dyma ein trydydd Adroddiad Blynyddol ers lansio ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn trafod y cyfnod rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2011, ac mae'n nodi sut mae'r cynigion y gwnaethom eu gosod yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy wedi cael eu gweithredu.

Mae'n darparu corff o dystiolaeth i ddangos sut rydym wedi defnyddio datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol, er mwyn sicrhau bod ein holl benderfyniadau yn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Mae'n dangos sut mae'r ffordd hon o weithio wir yn gwneud gwahaniaeth hirdymor i ansawdd bywyd pobl. Rydym hefyd yn trafod sut rydym wedi bwrw ymlaen â'r 18 cam gweithredu penodol sydd yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy.

Rydym yn ymwybodol iawn o uchelgais yr agenda datblygu cynaliadwy y gwnaethom ei gosod yng nghynllun Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, a bod angen i ni wneud mwy i adlewyrchu maint a chyflymder y newid sydd ei angen i wneud Cymru'n genedl gynaliadwy.

Mae felly yn amserol iawn bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi wrth i ni ymgymryd ag adolygiad statudol o effeithiolrwydd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Byddwn yn defnyddio'r adolygiad hwn i'n helpu i nodi'r rhwystrau rhag gweithredu mwy tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, ac i nodi'r meysydd lle gallwn helpu gydag atebion i'r rhwystrau hyn.  Byddwn yn siarad â'n holl randdeiliaid dros Gymru gyfan. Rwy'n gwybod eu bod yn llawn brwdfrydedd ac ymrwymiad i wneud eu cymunedau'n fwy cynaliadwy.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein cynigion i ddeddfu er mwyn cryfhau'r modd rydym yn ymdrin â datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ein rhoi ar ben ffordd wrth ddod yn genedl sy'n arwain y blaen o ran datblygu cynaliadwy.

Rwy'n gobeithio y bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn annog pawb i gynnal eu hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, ac i barhau i weithio gyda ni fel y gallwn wneud rhagor o waith ar lawr gwlad dros ddatblygu cynaliadwy, er budd i bawb.



John Griffiths, AC
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

**Sylwebaeth gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Chynnal Cymru**

Dyma'r sylwebaeth annibynnol gyntaf a wnaed dan y trefniadau newydd ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy, a rhoi cyngor yn ei gylch, ers penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu cyllid yn ôl o'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ym mis Mawrth 2011. Mae'r penderfyniad i gynnal y capasiti hwn ar gyfer cynghori a chraffu'n annibynnol drwy'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Chynnal Cymru yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth.

Er lansio *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* ym mis Mai 2009, does dim amheuaeth bod cynnydd wedi'i wneud wrth roi sylw i sut caiff datblygu cynaliadwy, fel prif egwyddor drefniadol, ei ddeall a'i roi ar waith ym maes datblygu a gweithredu polisi. Fodd bynnag, yn yr un modd ag adroddiadau blaenorol, nid yw'r adroddiad yn rhoi golwg gyffredinol ar sut mae'r mentrau, y polisïau a'r strategaethau unigol yn cyfuno i gyfrannu at gynnydd mesuradwy yn erbyn y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy.

Mae yna angen parhaus i sicrhau y caiff datblygu cynaliadwy ei drin fel pwrpas craidd y Llywodraeth, yn hytrach na thema drawsbynciol. Yn 2010, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru ganfod enghreifftiau lle'r oedd datblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried yn 'flaenoriaeth groes' wrth ei gyflawni[1]. Rydym yn pryderu bod enghreifftiau'n bodoli o hyd lle caiff datblygu cynaliadwy ei drin fel un o nifer o flaenoriaethau croes, gan gynnwys mewn meysydd uchel eu proffil sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, megis Byrddau Gwasanaethau Lleol. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn un o'r prif bethau y bydd yr Adolygiad Effeithiolrwydd ar *Gymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yn canolbwyntio arno. Dylai'r Adolygiad Effeithiolrwydd fynd i'r afael â chwestiynau pwysig a allai helpu i gyflawni hyn: a yw iaith y 'berthynas' neu'r 'cysylltiadau' â chynaliadwyedd yn ei rwystro rhag bod yn blanedig? Ai fel rhywbeth wedi'i 'ychwanegu' at gyfrifoldebau craidd y caiff datblygu cynaliadwy ei weld? Pa mor bendant a chlir yw'r targedau a'r amcanion? Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd? Pa mor effeithiol y gellir gwerthuso a mesur cynnydd?

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, 2010. "Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau busnes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru".

Rydym o'r farn bod y datgysylltu a welir rhwng y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a rhaglen y Llywodraeth yn fater allweddol. Fe wnaeth yr adolygiad *Progress in Embedding the One Planet aspiration in Welsh Government*[2] godi pryder nad oedd *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* yn rhan o feysydd allweddol "trafodaethau polisi" ac, mewn rhai achosion, ei fod yn dal yn rhywbeth a ychwanegir at ddiwedd ystyriaethau polisi. Mae'r diffyg cynnydd hwn wrth brif ffrydio datblygu cynaliadwy, fel y pwysleisiwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ei adroddiad etifeddiaeth o'r trydydd Cynulliad, yn dangos bod angen edrych ar pa mor effeithiol yw'r modd y mae rhaglen y llywodraeth yn cyflawni ymrwymiadau *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*. Mae'r cyfuniad o adrodd ar ymyriadau ar raddfa fach, ochr yn ochr â materion pwysig, yn pwysleisio'r ffaith bod angen prawf perthnasedd mwy clir er mwyn nodi'r prif faterion y mae angen adrodd amdanynt mewn fwy o fanylder. Yn y gorffennol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi'r tuedd mewn adroddiadau i "ddewis a dethol pynciau ac ymdriniaeth anghyson i guddio bylchau yn yr hyn a asesir. Mae anghysondebau wrth lunio adroddiadau wedi golygu y collwyd golwg ar flaenoriaethau, ac na nodwyd tueddiadau.[3]"

Bu i Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2011 ddangos gwelliannau. Fodd bynnag, yr hyn sy'n ein poeni yw'r ffaith bod dangosyddion coch i'w gweld hefyd – yn benodol, Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn nodi dangosyddion newydd ar gyfer Cynllunio a Newid yn yr Hinsawdd. Rydym yn poeni nad yw'r cysylltiadau rhwng y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a'r ffynonellau newydd hyn o ddata yn glir. Mae perygl y bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu drysu ymysg y dangosyddion eraill hyn, a hoffem i'r berthynas rhyngddynt gael ei gwneud yn fwy eglur. Mae hefyd yn bwysig bod y dangosyddion yn cael eu cyflwyno yng nghyd-destun eu targedau, a bod cynnydd yn erbyn y targedau hynny yn cael ei egluro'n ystyrlon; er enghraifft, mae'r cyhoeddiad yn cyfeirio at ddyblu capasiti trydan adnewyddadwy, ond nid yw'n egluro sut mae hynny'n cyd-fynd â thargedau'r Llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy.

---

[2] Netherwood A. 2011. "*Progress in Embedding the One Planet Aspiration in Welsh Government*". WWF Cymru

[3] [1] Adran 2.45, t31.

Mae'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn darparu mesur o'r hwyl rydym yn ei chael arni fel cenedl, gan gynrychioli'r effaith y mae pob rhan o'r gymdeithas yn ei chael. Mae hefyd yn bwysig gallu dangos sut mae effaith polisi'r Llywodraeth yn cyfrannu at wella perfformiad ar draws yr ystod o ddangosyddion. Mae'r adroddiad diweddar *More than GDP: Measuring What Matters*[4] yn pwysleisio'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn yn yr Alban, yn Ffrainc a ledled yr UE. Dylai Cymru dynnu ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu a chreu mesuriadau mwy clir i fesur cynnydd.

Ceir nifer o enghreifftiau o waith effeithiol a wneir ar faterion yn ymwneud â Datblygu Cynaliadwy yn yr Adroddiad Blynyddol: gwobrwyo arfer da yng nghategori cynaliadwyedd Gwobrau Twristiaeth Cymru, gwaith Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru a Sgiliau Adeiladu ar sgiliau datblygu cynaliadwy, a chydnabod astudiaeth achos o gaffael fel enghraifft o fewn Safon Brydeinig.

Mae pryderon yn dal i fod ynghylch caffael, a hoffem weld rhagor o gynnydd. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi mai 3.5 oedd y sgôr Fframwaith Gweithredu Caffael Cynaliadwy yn 2010, yn erbyn targed o 5. Hoffem weld rhywfaint o gamau cywiro yn cael eu cymryd er mwyn cyrraedd y targed. Wrth ystyried yr effaith y gall caffael cyhoeddus ei gael wrth ddylanwadu ar gynaliadwyedd, rydym yn poeni bod rhanddeiliaid yn pryderu o hyd ynghylch sut y cyflawnir canlyniadau cynaliadwyedd mewn arferion caffael.

Yn y flwyddyn 2011-12, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei gwaith ar gynaliadwyedd drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod enghreifftiau o arferion gorau yn dod ar y cyd â naratif sy'n cynnwys beirniadaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o "sut" a "pham" eu bod yn gweithio.
- Ymgysylltu'n well ag arbenigwyr a dinasyddion ar lawr gwlad yng Nghymru i ddeall yr heriau sy'n wynebu datblygu cynaliadwy, ac ymateb iddynt. Mae'n bwysig bod cynnydd o ran Datblygu Cynaliadwy yn cael ei gyfathrebu'n well yn ystod y flwyddyn, a bod yr adroddiad hwn ar gael i fwy o bobl, a bod mwy o drafod arno ledled Cymru.

---

[4] Ymddiriedolaeth Carnegie a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (yr Alban). 2001. Measuring What Matters, More Than GDP.

- Datblygu camau gweithredu ac amcanion mwy eglur er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy, yn benodol ar gyfer yr adroddiad hwn er mwyn dangos gwell gwaith a dealltwriaeth ar draws ffiniau adrannol traddodiadol.
- Mae’r Ysgrifennydd Parhaol wedi sicrhau cynaliadwyedd fel dangosydd perfformiad allweddol o sut mae’r Llywodraeth yn gweithredu. Dylai targedau a chynnydd ffurfio rhan mwy eglur o atodiad Cyfrif am Gynaliadwyedd yr adroddiad hwn. Nid yw canlyniadau pwysig megis cyfanswm yr arbedion carbon a gyflawnwyd eleni yn glir yn yr adroddiad.
- Dylid gwella’r atodiad Cyfrif am Gynaliadwyedd drwy gynnwys amcanion a dangosyddion cymdeithasol ac economaidd ochr yn ochr â’r rhai amgylcheddol sydd eisoes i’w gweld, gan dynnu ar arfer gorau byd-eang o ran adrodd ar gynaliadwyedd.

Ni ellir amau ymrwymiad y Llywodraeth gyfan i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae adolygiadau effeithiolrwydd blaenorol ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy wedi dangos y balchder y mae gwleidyddion pob plaid a gweision sifil yn ei deimlo dros ddyletswydd datblygu cynaliadwy Cymru. Mae angen i’r Adroddiad Blynyddol ynghylch cyflawni’r ddyletswydd honno fod yn ganolbwynt ar gyfer y balchder hwnnw i’r Llywodraeth gyfan, ac yn sail ar gyfer cyfathrebu â dinasyddion a busnesau y tu mewn i Gymru ac y tu allan. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi’i wneud, rydym yn credu bod llawer iawn i’w wneud eto cyn i ni wir allu honni bod datblygu cynaliadwy yn effeithiol fel y brif egwyddor drefniadol.

## Pennod 1 Datblygu Cynaliadwy – Prif Egwyddor Drefniadol

| **Gweledigaeth:** Datblygu Cynaliadwy fydd prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru |
|---|
| **Dangosydd:** Caiff datblygu cynaliadwy ei brif ffrydio fel ein prif egwyddor drefniadol<br><br>**Cynnydd:**<br><br>Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth brif ffrydio datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol, ond rydym yn derbyn bod rhagor i'w wneud o hyd. Drwy ein hadolygiad statudol o effeithiolrwydd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, byddwn yn datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn adrodd yn fwy cywir ar ein cynnydd. |

### Hyfforddi a meithrin gallu

Rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant ar ddatblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol, sydd ar gael i bob aelod o'r staff. Rydym wedi parhau i weithio gyda Fforwm ar gyfer y Dyfodol, sydd wedi darparu astudiaethau achos o wledydd eraill sy'n edrych ar sut mae datblygu cynaliadwy wedi llunio'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu.

### Gwneud penderfyniadau

Dros y flwyddyn, mae Gweinidogion wedi cyflwyno papurau i Is-Bwyllgor Dyfodol Cynaliadwy'r Cabinet, sy'n egluro sut mae datblygu cynaliadwy, fel ein prif egwyddor drefniadol, wedi bod yn sail i'w penderfyniadau. Mae'r papurau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[5]

### Gweithio'n gynaliadwy

Parhawyd i ddatblygu ystod o welliannau o ran perfformiad amgylcheddol ar draws yr Ystad Weinyddol. Mae system reoli'r Ddraig Werdd bellach yn cynnwys dros 90% o gyfanswm y staff a'r arwynebedd llawr mewnol net. O ganlyniad, mae ystad weinyddol gyfan Llywodraeth Cymru bellach wedi cyrraedd Safon y Ddraig Werdd Lefel 5. Ar yr un pryd, gwnaethom ddechrau gwaith i sefydlu gwaelodlin ar gyfer yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a ddaw o ystod ehangach o weithgareddau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cestyll a henebion dan ein gwarchodaeth; goleuadau ac offer cyfathrebu rhwydwaith ar gyfer cefnffyrdd Cymru; ac adeiladau lle mae gennym gyfrifoldebau ynni. Ar ôl i waelodlin gael ei sefydlu, bydd Strategaeth Lleihau Carbon yn cael ei mabwysiadu gan bob maes, a fydd yn ceisio lleihau 30% ar allyriadau erbyn 2020.

Rydym wedi parhau i arwain drwy esiampl o ran caffael cynaliadwy drwy wneud y canlynol:

- Rhoi'r Asesiad Risg Cynaliadwy ar waith ar bob contract dros £25,000;
- Cynnwys cymalau budd i'r gymuned mewn contractau mawr fel mater o drefn. Mae hyn wedi annog cyflenwyr i recriwtio a hyfforddi'r rheini sydd wedi bod heb waith am gyfnod hir mewn contractau sy'n cynnwys cynlluniau Tlodi Tanwydd, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Rheoli Adnoddau, a

[5] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetsubcommittees/previous/cc/?skip=1&lang=cy

Dysgu Seiliedig ar Waith. Roedd y trefniadau hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosib i fusnesau bach a chanolig;

- Ymgymryd â chontractau cydweithredol ar ran y sector cyhoeddus ehangach. Mae Fframwaith Gwasanaethau Argraffu Cymru Gyfan yn ei gwneud yn orfodol i ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu ac inciau sy'n seiliedig ar lysiau. Penodwyd pedwar busnes bach a chanolig ar ddeg i'r fframwaith. Mae'r trefniant hwn yn enghraifft o gaffael yng Nghyhoeddiad BS8903:2010 *"Egwyddorion a fframwaith ar gyfer caffael cynaliadwy – Arweiniad";*
- Cadw busnes ar gyfer Busnesau a Gefnogir wrth greu arwyddion yn adeiladau Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth a Llandudno ac ailgylchu TG, cefnogi pobl anabl mewn cyflogaeth a chanolbwyntio ar adnewyddu er mwyn ail-ddefnyddio, gan gyflawni canlyniadau o ran lles a'r amgylchedd;
- Neilltuo pren o ffynonellau cyfreithiol a chynaliadwy ar gyfer contractau dodrefn;
- Cyflwyno mwy o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol i fwydlenni contractau arlwyo, a lleihau ôl troed carbon cyflenwyr.

Gwnaethom barhau i ddefnyddio'r Fframwaith Gweithredu Caffael Cynaliadwy (SPAF) er mwyn gwella ein perfformiad caffael cynaliadwy, gan godi ein sgôr o 2 yn 2008 i 3.5 yn 2010, yn erbyn targed lefel 5 - SPAF erbyn 2010, sef targed y gwnaethom ei osod yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy.

## Gweithio gydag eraill

Mae datblygu cynaliadwy yn blanedig yn yr agenda effeithlonrwydd ac arloesi, gan annog gweithio cryf ac integredig ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau gwell canlyniadau hirdymor. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar saith maes blaenoriaeth er mwyn nodi arloesedd a oedd yn hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr ag arbedion costau. Dyma'r saith maes: comisiynu a chaffael cydweithredol; TGCh gwasanaethau cyhoeddus; trawsffurfio'r busnes; rheoli asedau cenedlaethol; modelau newydd o ddarparu gwasanaethau; arweinyddiaeth a datblygu'r gweithlu.

**ASTUDIAETH ACHOS: Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r agenda effeithlonrwydd ac arloesi wedi dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ynghyd er mwyn ymateb i'r heriau ariannol a'r galw cynyddol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wynebu. Roedd yn anelu at hyrwyddo arloesedd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, hybu cydweithio a sicrhau cymaint o fudd â phosib i'r economi, i'r amgylchedd ac i bobl Cymru.

Mae'r cyd-destun ar gyfer gweithredu yn y saith maes blaenoriaeth yn gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol, gan geisio sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer pobl Cymru. Cafodd yr egwyddor hon ei hymgorffori mewn ffyrdd ymarferol i hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr ag arbedion costau. Er enghraifft:

- gall ôl troed ecolegol sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus gael ei leihau drwy gyd-leoli gwasanaethau a rheoli ystadau yn fwy effeithiol. Mae'r Grŵp Rheoli Asedau Cenedlaethol yn rhoi hyn ar waith;
- mae'r defnydd cynyddol a wneir o un rhwydwaith band eang i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau arbedion costau drwy integreiddio mwy ar systemau TGCh;
- mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, y cytunwyd arno gan awdurdodau lleol a TUC Cymru, yn helpu i ddiogelu gwasanaethau a swyddi llywodraeth leol;
- nodwyd arloesedd cynaliadwy drwy ailgynllunio gwasanaethau, gan roi'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas wrth galon y ddarpariaeth;
- roedd adolygiad o gaffael yn y sector cyhoeddus – Prynu'n Ddoethach ar Adegau Mwy Anodd – yn canolbwyntio ar safoni, symleiddio, rhannu a chryfhau gallu (gan gynnwys sgiliau a thechnoleg). Roedd yr adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd caffael ar gyfer adfywiad economaidd ac er budd i gymunedau lleol, gan ragweld y byddai modd cyflawni arbedion effeithlonrwydd petai'r argymhellion yn cael eu mabwysiadu'n eang.

**Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru**

Roedd rhwydwaith y Siarter Datblygu Cynaliadwy wedi tyfu i gynnwys 57 mudiad erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad. Mae'r llofnodwyr yn cynnwys Carillion Plc, Marks and Spencer, PwC, Sharp Electronics, Gŵyl y Gelli, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched, Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, ein tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a chwech awdurdod lleol.

Cynhaliwyd dau gyfarfod rhwydwaith yn ystod 2010. Dywedodd sefydliadau bod llofnodi'r Siarter wedi bod o fantais masnachol a gwleidyddol iddynt, a bod ymwneud â'r rhwydwaith wedi rhoi cyfle iddynt wella ymgysylltiad cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Roedd y Siarter wedi helpu i feithrin brwdfrydedd, wedi rhoi cyfeiriad a phwrpas ac wedi dadlau'r achos dros y rheini sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy.

**Adrodd**

Rydym yn parhau i adrodd ar ein perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Blynyddol y Ddraig Werdd ac rydym wedi crynhoi ein perfformiad gan ddefnyddio'r fframwaith adrodd integredig Cyfrif am Gynaliadwyedd, yn ATODIAD A yr adroddiad hwn.

Gwnaethom gyhoeddi'r cynnydd rydym yn ei wneud at fod yn genedl mwy cynaliadwy yn ein cyhoeddiad Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy blynyddol[6]

**Cam Gweithredu 1 – *Byddwn yn datblygu mesur o les yng Nghymru, ac yn cyflwyno adroddiad arno fel 5ed prif ddangosydd datblygu cynaliadwy.***

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2010, cytunodd y Cabinet i adrodd ar les Cymru fel 5$^{ed}$ prif ddangosydd datblygu cynaliadwy. Gwnaethom adrodd ar les fel 5$^{ed}$ prif ddangosydd am y tro cyntaf ym mis Awst 2010, yn ein cyhoeddiad Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2010.

**Cam Gweithredu 2 – *Byddwn yn meincnodi ein cynnydd o ran datblygu cynaliadwy yn ein gweithrediadau yn erbyn adrannau eraill y Llywodraeth, gan***

[6] http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/sustain2010/100826/?lang=en

***ddefnyddio proses adrodd Datblygu Cynaliadwy mewn Llywodraeth (SDiG), o wanwyn 2009 ymlaen.***

Gwnaethom gyhoeddi un adroddiad SDiG gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, y cyfeirir ato yn Adroddiad Blynyddol y llynedd. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu cyllid yn ôl o’r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy o ddiwedd mis Mawrth 2011 ymlaen, nid oedd y Comisiwn (sydd bellach wedi cau) wedi gallu llunio ail adroddiad SDiG.

**<u>Cam Gweithredu 3</u> – *Drwy’n Pecyn Cymorth Integreiddio Polisïau, byddwn yn nodi sut y gall pob menter newydd gyfrannu orau at ddatblygu cynaliadwy, a byddwn yn defnyddio’r Rhaglen Dadansoddi Adnoddau ac Ynni (REAP) i nodi cyfraniad y rhain at leihau Ôl Troed Ecolegol Cymru.***

Yn ystod 2010-11, gwnaethom barhau i ddefnyddio’r Teclyn Porth a’r Teclyn Trothwy Polisi wrth lunio polisïau. Gwnaethom hefyd ymgymryd â gwaith i wella effeithiolrwydd y Teclynnau drwy wneud y canlynol:

- sicrhau y gofynnir y cwestiynau cywir ar yr adeg cywir, ac y rhoddir sylw i’r cwestiynau gan ddefnyddio’r data cywir, a
- sicrhau na fydd gormod o ddyblygu diangen yn digwydd

Mae’r gwaith hwnnw yn parhau i mewn i 2011-12.

## Pennod 2 Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy

| |
|---|
| **Gweledigaeth:** O fewn oes cenhedlaeth, rydym am sicrhau mai dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear y bydd Cymru yn ei defnyddio |
| **Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy:** Ôl Troed Ecolegol Cymru<br><br>**Cynnydd:**<br><br>Y ffigur diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ôl troed ecolegol Cymru yw 4.4 hectar byd-eang y pen (2006), sydd yn dal yn fwy na dwbl cyfartaledd cyfran y byd, ac ychydig yn is na chyfartaledd y DU (4.6). Daw'r ffigur hwn, sydd heb ei ddiweddaru er 2006, o gyfnod cyn cyhoeddi cynllun Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned<br><br>• Allyriadau nwyon tŷ gwydr<br><br>Y patrwm cyffredinol yw yr amcangyfrifir gostyngiad o 10 y cant mewn allyriadau o'r fasged o nwyon tŷ gwydr o Gymru yn 2008 er 1990. Yn fwy diweddar, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi bod yn cynyddu. Roedd allyriadau 2008 wedi cynyddu 4.7 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>• Gwastraff yn Codi<br><br>Rhwng 1998-99 a 2004-05, roedd cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchwyd yng Nghymru bob blwyddyn wedi codi bron i 400 mil tunnell. Fodd bynnag, er 2004-05, mae cyfanswm y gwastraff dinesig a gynhyrchir yng Nghymru bob blwyddyn wedi bod yn lleihau o un flwyddyn i'r llall. Erbyn 2009-10 roedd wedi lleihau dros 250 mil tunnell ers y pwynt uchel yn 2004-05.<br><br>• Gwastraff o gartrefi a ailgylchwyd neu a gompostwyd<br><br>Mae cyfran y gwastraff o gartrefi sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio wedi cynyddu'n gyson er 1996-97. Yn 2009-10, roedd 40% o wastraff o gartrefi'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio.<br><br>• Symudedd<br><br>Roedd nifer y siwrneiau a wneir y pen bob blwyddyn drwy gerdded a seiclo wedi disgyn rhwng 1995/00 a 2002/03, ond mae wedi codi rhyw fymryn ers hynny. O ran teithio i'r gwaith, yn 2010, roedd 79 y cant o bobl yn teithio i'r gwaith mewn car, fan, bws mini neu fan gwaith – cwymp bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu rhywfaint o gynnydd o ran cerdded, seiclo, a mathau eraill o drafnidiaeth. Roedd oddeutu 13 y cant yn teithio i'r gwaith drwy gerdded neu seiclo, ac 8 y cant yn teithio i'r gwaith drwy ddefnyddio math arall o drafnidiaeth. |

### Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd

Gwnaethom gyhoeddi Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Hydref 2010, gan gadarnhau ein prif darged o leihau 3% y flwyddyn ar allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli, a hynny o 2011 ymlaen, yn erbyn gwaelodlin allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfartaledd rhwng 2006 a 2010. Hefyd, cadarnhaodd y Strategaeth ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni lleihad o 40% o leiaf yn holl allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru erbyn 2020, yn erbyn gwaelodlin 1990, yn ogystal ag ystod o dargedau lleihau allyriadau i bob sector.

Gwnaethom gyhoeddi dau Gynllun Cyflenwi ochr yn ochr â'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Lleihau Allyriadau yn nodi amrywiaeth o fesurau penodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector trafnidiaeth, cyhoeddus, busnes, amaeth, gwastraff a phreswyl. Mae'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Addasu yn nodi'r rhaglenni a'r polisïau addasu penodol rydym yn eu rhoi ar waith.

Yn ogystal â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i weithredu'r mesurau lleihau allyriadau ac addasu, ar hyn o bryd, rydym yn rhoi fframwaith monitro cynhwysfawr ar waith er mwyn mesur y cynnydd at y targedau lleihau allyriadau rydym wedi'u gosod. Mae cyfres o ddangosyddion yn cael eu datblygu i ddilyn hynt gweithredu'r mesurau sydd yn y Cynllun Cyflenwi er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r arbedion allyriadau a ragwelwyd. Mae'r fframwaith hwn yn gyson â'r hyn a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn galluogi asesiadau cymharol.

**ASTUDIAETH ACHOS: Eco Ysgolion**

Mae'r nifer fwyaf o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau bwyd am ddim yn yr ysgol i'w weld yng Nghymoedd De Cymru. Caiff yr ystadegyn ei ddefnyddio'n aml fel arwydd o ardaloedd sy'n wynebu her economaidd a chymdeithasol. Mae'r ardaloedd hyn yn llawn Eco-Ysgolion Baner Werdd bywiog sy'n gwneud gwahaniaeth economaidd cadarnhaol. Beth sy'n cael ei ddiystyru'n aml yw'r effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen yn ei gael wrth godi hunan barch disgyblion, datblygu eu sgiliau cyfathrebu a chodi eu lefelau cyrhaeddiad.

Yn rheolaidd, mae Eco-Bwyllgor Ysgol Gynradd Bryntirion (Pen-y-bont ar Ogwr) yn monitro'r defnydd a wneir o ddŵr, ynni a deilliant gwastraff. Maent yn cyfrifo faint sydd wedi cael ei ddefnyddio, ac a yw hyn yn fwy neu'n llai o'i gymharu â misoedd eraill. Maent yn defnyddio sgiliau dadansoddol i bennu rhesymau posib y tu ôl i'r newid. Yna, caiff yr wybodaeth hon ei hadrodd yn ôl i weddill yr ysgol mewn ffordd hwylus a deinamig. Mae'r dull hwn yn gwella eu sgiliau mathemategol, yn ogystal â gwella eu lefelau cyfathrebu.

Mae gan Ysgol Gynradd Gymunedol Heolgerrig ym Merthyr Tudful Eco-Bwyllgor deinamig ac ymrwymedig. Gwnaethant ddewis datblygu cynllun ailgylchu, ac adeiladu amgylchedd dysgu o ddeunyddiau wedi'u hadfer gyda help Trefi Taclus Merthyr, yn ogystal ag archwilio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae bod ar Eco-Bwyllgor yn creu cyfleoedd i ddisgyblion na fyddant wedi'u cael fel arall, sy'n arwain at ddatblygu eu cyrhaeddiad. Caiff hyn ei egluro orau gan ddyfyniad uniongyrchol gan aelod o'r Eco-Bwyllgor "I ddechrau, ymunais â'r Eco-Bwyllgor fel nad oedd rhaid i mi wneud gwaith Mathemateg a Saesneg, ond nawr rwy'n ei wneud am fy mod yn hoffi siarad a gwneud gwahaniaeth i fy ysgol."

Gwnaeth Eco-Bwyllgor Ysgol Gynradd Penrhys (Rhondda Cynon Taf) gynnal prosiect i annog ac adnabod adar gerddi Prydain. Gwnaethant adeiladu ardaloedd bwydo adar, gwneud bwyd i'r adar a gwylio'r adar. Roeddynt yn cofnodi'r adar a oedd yn ymweld â'r ysgol. Mae'r sgiliau sy'n rhan o'r prosiect hwn yn aml-ddimensiynol, ac yn ymarferol iawn. Roedd y dull hwn yn gweddu i rai o'r disgyblion llai abl yn academaidd, a oedd yn disgleirio yn ystod y prosiect hwn, ac roedd eu hunan-barch yn tyfu yn y broses.

## Gwastraff

Ym mis Mehefin 2010, gwnaethom gyhoeddi Tuag at Ddyfodol Diwastraff, dogfen strategaeth gwastraff cyffredinol Cymru. Roedd yn cadarnhau'r prif gerrig milltir o gynyddu ailgylchu i o leiaf 70% ar draws pob ffrwd gwastraff erbyn 2025, a lleihau'r gwastraff dros ben a gynhyrchir hyd eithaf ein gallu. Erbyn 2050, rydym yn bwriadu dileu gwastraff dros ben yn raddol drwy weithredu ar ddefnyddio pethau'n gynaliadwy a chynhyrchu mewn dull cynaliadwy.

Dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, rydym wedi gwneud y targed ailgylchu 70% ar gyfer pob math o wastraff yn orfodol i awdurdodau lleol.

Cyflwynwyd y Cynllun Sector Trefol, sy'n trafod gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol, ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mehefin 2010, ac fe gyhoeddwyd y fersiwn derfynol ym mis Mawrth 2011. Ochr yn ochr â'r cynllun, gwnaethom gyhoeddi "Patrwm ar gyfer Casglu" sy'n disgrifio gwasanaeth casglu cyson a chynaliadwy y gall awdurdodau lleol ei ddarparu ar gyfer gwastraff cartrefi.

Ym mis Mawrth 2010, ar gyfer ymgynghoriad, gwnaethom gyhoeddi drafft o'r Cynllun Sector ynghylch Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a drafft o Gynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd.

Cynyddwyd y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i helpu i gefnogi awdurdodau lleol i ailgylchu mwy, i £72 miliwn (o £59 miliwn yn 2009-10). Roedd y cynnydd cyllidol hwn yn canolbwyntio ar gynyddu'r achosion o gasglu gwastraff bwyd ar wahân. Erbyn mis Rhagfyr 2010, roedd cynghorau lleol yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff bwyd ar wahân i oddeutu 80% o gartrefi.

**Cynllunio**

Yn 2010/11, rydym wedi parhau i ddiweddaru a chyflwyno polisi a chyfarwyddyd newydd i hyrwyddo'r rhan y mae cynllunio'n ei chwarae wrth gyflawni ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy.

Ym mis Mehefin 2010, gwnaethom gyhoeddi *Nodyn Cyngor Technegol 22 Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy* er mwyn rhoi cyngor i ddatblygwyr a chynllunwyr ynghylch sut mae gweithredu ein polisi cynllunio cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy.

Ym mis Gorffennaf 2010 gwnaethom gyhoeddi argraffiad newydd o *Bolisi Cynllunio Cymru* a oedd yn cwblhau'r broses o ddiweddaru ein polisi a'n cyfarwyddyd ynghylch mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy'r system gynllunio. Mae'r diweddariadau hyn yn dangos eto y rhan allweddol y mae cynllunio'n ei chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy.

Ynghyd â'r argraffiad newydd o *Bolisi Cynllunio Cymru*, gwnaethom hefyd gyhoeddi;

- *Ynni Adnewyddadwy: Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr* a fydd yn helpu awdurdodau cynllunio lleol i asesu ac adnabod y cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardaloedd;
- *Cyfarwyddyd Ymarfer – Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel* ar gyfer cynllunwyr, i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am ystod o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Cafodd y cyfarwyddyd ei ddiweddaru ym mis Chwefror 2011, i gynnwys cyngor ychwanegol am gynlluniau arae Solar PV;
- Cyfres o 10 taflen yn trafod amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach. Mae'r taflenni *Cynhyrchu eich Ynni eich hun* yn cynorthwyo perchnogion tŷ, cymunedau a busnesau sydd am gynhyrchu eu hynni eu hunain, ac yn rhoi gwybod iddynt pa faterion y dylent fod yn ymwybodol ohonynt. Mae hyn yn cyd-fynd â *Gwella eich Cartref – Canllaw Newid Hinsawdd* 2008.

Gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i'n polisi cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn helpu i hwyluso ein dyheadau ynni. Cyhoeddwyd y polisi terfynol ym mis Chwefror 2011, mewn argraffiad newydd o *Bolisi Cynllunio Cymru*. Mae ein polisi diwygiedig yn ceisio sefydlu fframwaith lle dylai awdurdodau cynllunio lleol gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer pob ffurf o ddatblygu ynni adnewyddadwy.

Rydym yn parhau i weithio ar ddileu'r rhwystrau rhag gosod systemau micro-gynhyrchu mewn eiddo domestig ac eiddo nad yw'n ddomestig. Yn 2010, gwnaethom ymgynghori ymhellach ynghylch ymestyn hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer technolegau micro-gynhyrchu.

Rydym wedi diweddaru ein polisi a'n cyfarwyddyd ynghylch sut gellir defnyddio'r system gynllunio i hyrwyddo cymunedau gwledig cynaliadwy drwy *Polisi Cynllunio Cymru* a *Nodyn Cyngor Technegol 6* ym mis Gorffennaf 2010. Cyflwynodd hyn ein polisi Datblygu Cenedl Un Blaned, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion hyn fod ag ôl troed ecolegol o 2.4 hectar y pen neu lai.

**Cynllun Gofodol Cymru**

Ymysg yr enghreifftiau o sut mae egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wedi cael eu gweithredu yng ngwaith y cynllun gofodol ar lefel ardal yn 2010/11 mae prosiect Rhanbarth Amgylchedd Rhwydweithiol yn Ne Ddwyrain Cymru, a phrosiect ynni'r môr yn Sir Benfro.

Roedd y prosiect arloesol iawn – Rhanbarth Amgylchedd Rhwydweithiol – yn defnyddio data daearyddol, ynghyd ag arbenigedd proffesiynol, i ddangos dull newydd o integreiddio seilwaith gwyrdd a glas i gynllunio strategol. Mae'r allbynnau wedi bod yn sail i'n hymgynghoriad ar 'Cymru Fyw', ar Fframwaith Amgylchedd Naturiol newydd.

Yn Sir Benfro, daeth y Cynllun Gofodol â buddiannau amgylcheddol, awdurdodau lleol, ymchwilwyr a'r diwydiant ynghyd i gydweithio ar brosiect er mwyn cyflawni newid sylweddol a gwneud Sir Benfro yn ganolfan rhagoriaeth mewn ynni'r môr. O ganlyniad, mae'r dechnoleg llif llanw ddiweddaraf yn cael ei threialu oddi ar arfordir Sir Benfro.

**Tai**

Ym mis Gorffennaf 2010, gwnaethom gyhoeddi targed newydd i leihau 55% ar allyriadau carbon o dai newydd yn erbyn safonau 2006, drwy Reoliadau Adeiladu datganoledig. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2012. Bwriedir hyn i fod yn gam mawr ar y ffordd i greu adeiladau newydd di-garbon. Cefnogir y gwaith gan Grŵp Di-garbon/Carbon Isel Cymru, drwy ei weithgareddau ymgysylltu a lledaenu gwybodaeth.

**Bwyd**

Lansiwyd Strategaeth Bwyd Cymru – Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020 – ddiwedd 2010. Mae’n gosod agenda hirdymor a rhagweithiol er mwyn rhoi sylw i’r heriau sy’n wynebu’r sector bwyd ehangach. Mae’r strategaeth yn nodi’r materion bwyd cymhleth sy’n wynebu pob un ohonom, gan gynnwys beth yw’r ffordd orau o gydbwyso'r angen i gynhyrchu mwy o fwyd â’r angen i amddiffyn ein hamgylchedd ar gyfer y dyfodol agos a'r dyfodol yn y tymor hirach. Mae’r strategaeth yn ymuno ystod o bolisïau allweddol Llywodraeth Cymru â’i gilydd, gan fewnosod materion strategol trawsbynciol eang megis cynaliadwyedd, iechyd a lles, diogelwch bwyd, addysg, bioamrywiaeth, datblygu gwledig, a meithrin cysylltiadau cryf â strategaethau allweddol eraill Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y Strategaeth ddynodi rôl allweddol ar gyfer y diwydiant wrth gyflawni. Mae’r mentrau amgylcheddol sy’n cael eu harwain gan y diwydiant mewn partneriaeth â’r Llywodraeth, megis y ‘Map Llaeth’ a’r ‘Map Cig Coch’, yn enghreifftiau o sut gall cydweithio agosach hyrwyddo newid cadarnhaol.

**Trafnidiaeth**

Bu i’r pedwar consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol ledled Cymru gwblhau eu blwyddyn gyntaf o ddarparu’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn llwyddiannus yn 2010/11. Rydym yn disgwyl derbyn eu Hadroddiadau Cynnydd Blynyddol cyntaf erbyn diwedd mis Medi 2011.

Ar hyn o bryd, rydym yn adnewyddu Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), ac yn disgwyl y bydd y fersiwn ddiwygiedig yn barod erbyn diwedd 2011. Bydd y WelTAG diweddaraf yn ystyried arferion gorau, a bydd yr arfarniad yn parhau i ganolbwyntio ar y tri prif faes effaith, sef y gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi.

**<u>Eitemau Traul</u>**

Mae’r Strategaeth Ymgysylltu Newid yn yr Hinsawdd yn nodi sut bydd newid ymddygiad y cyhoedd yn hanfodol wrth i ni fodloni ein targedau newid yn yr hinsawdd. *Mae’r ddogfen yn nodi dull sy’n adeiladu ar yr arbenigedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, a’r gweithredu sydd eisoes yn digwydd ar lefel gymunedol.* Mae’r dull hwn yn bwriadu sbarduno gweithredu – hynny yw, helpu pobl, cymunedau a sefydliadau i wneud y canlynol:

(a) uniaethu â newid yn yr hinsawdd a deall sut mae’n gysylltiedig â’r ffordd maent yn byw ac yn gweithio;
(b) teimlo bod newid yn yr hinsawdd yn fater y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol iddo; a
(c) newid y ffordd maent yn byw er mwyn mabwysiadu tueddiadau a dewisiadau sy’n fwy ymwybodol o’r hinsawdd.

Er mwyn helpu i sicrhau Cymru mwy cynaliadwy, rydym wedi rhoi contract fframwaith ar waith syn rhoi mynediad hwylus at gefnogaeth a chyngor. Y bwriad yw helpu pobl a chymunedau i greu a chyfathrebu cyd-weledigaeth o Gymru gynaliadwy, gwydn, carbon isel; helpu gyda’r camau gweithredu y mae’n rhaid i ni eu cymryd er mwyn gwireddu’r weledigaeth; a’n helpu i gyflawni rhaglenni a fydd yn sicrhau ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw.

Mae ein Cynllun Grant i Gefnogi Byw'n Gynaliadwy yn rhoi cyllid a chyngor i brosiectau, iddynt helpu pobl i fabwysiadu ffordd o fyw carbon isel, sy'n fwy cynaliadwy. Rydym am helpu i sicrhau newidiadau hirdymor i'r ffordd y mae pobl yn byw, a fydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru a mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynllun grant ar agor i sefydliadau o bob sector.

Rydym yn parhau i gefnogi ymarferwyr ar lefel gymunedol ledled Cymru sy'n gweithio ar brosiectau sy'n cael eu harwain yn lleol, drwy'r digwyddiadau rhwydwaith hyn a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, sy'n darparu cyfleoedd i gydweithio, i ddysgu ar y cyd ac i rannu arbenigedd.

**<u>Cam Gweithredu 4</u> – *Er mwyn hyrwyddo ôl troed bach yng Nghymru, byddwn yn ymestyn y defnydd o gyfrifo ôl troed ecolegol ymhellach drwy gyflwyno cynllun grant o 2009/10 ymlaen.***

Dros gyfnod yr adroddiad, defnyddiwyd y grantiau ôl troed ecolegol gan bedwar sefydliad, sef:

- Cymdeithas Tai Eryri, i fesur ôl troed ecolegol a charbon y gymdeithas dai;
- Rounded Development Enterprises Ltd, i ddatblygu Cronfa Ddata o Gynnyrch Adeiladu. Y bwriad oedd annog y diwydiant adeiladu i gael gwybodaeth o well ansawdd a gwybodaeth fwy hygyrch am gynnyrch adeiladu;

Gŵyl y Gelli, i fesur ôl troed ecolegol Gŵyl y Gelli 2010;

Asiantaeth yr Amgylchedd, i gyfrifo ôl troed yr adnoddau dŵr a ddefnyddir gan gig oen, tatws a thomatos a gynhyrchir yng Nghymru, o'i gymharu â gwledydd sy'n allforio'r cynnyrch hyn i Gymru (Seland Newydd, Israel a Sbaen yn ôl y drefn honno).

**<u>Cam Gweithredu 5</u> – *Byddwn yn rhoi fframwaith monitro strategol ar waith, mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol, er mwyn mesur canlyniadau datblygu cynaliadwy allweddol a gyflawnir gan y system gynllunio.***

Gwnaethom gomisiynu ymchwil i'n helpu i nodi cyfres o ddangosyddion i ddangos sut mae'r system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion datblygu cynaliadwy. Mae'r prosiect hwn bron â dod i ben, a byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion yn nes ymlaen eleni, gyda'r bwriad o gyflwyno'r fframwaith monitro newydd yn 2012.

**<u>Cam Gweithredu 6</u> – *Byddwn yn datblygu strategaeth i leihau ôl troed ecolegol pob Ardal Ofodol yng Nghymru yn ei holl weithgareddau, a nodi hyn yn fframwaith cyflawni'r Ardal. Fel rhan o hyn, byddwn yn diffinio'r cysyniad o ranbarthau carbon isel a sut y gellir cyflawni hyn ym mhob Ardal o'r Cynllun Gofodol.***

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a phartneriaid eraill i fynd â'r ymrwymiad hwn yn ei flaen. Roedd cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy 'Cymru Carbon Isel: Blaenoriaethau Rhanbarthol i'w Gweithredu' ym mis Tachwedd 2009 yn cofnodi cam cyntaf y broses. Ers hynny,

mae cynnydd da wedi bod wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer Rhanbarthau Carbon Isel:

- Yn *Ne Orllewin Cymru*, sefydlwyd y Tasglu Carbon Isel dan gadeiryddiaeth Peter Davies. Lansiodd ei fap llwybr ym mis Medi 2010, ac mae gwaith ar y cynllun cyflenwi yn mynd rhagddo.
- Yng *Nghanolbarth Cymru*, mae'r gwaith Rhanbarth Carbon Isel yn canolbwyntio ar yr her bwysig o ddiogelu a gwella storfeydd o garbon mewn pridd, ac ar ynni adnewyddadwy dan y Fframwaith ar gyfer Gweithredu Economi Werdd.
- Yng *Ngogledd Cymru*, mae'r gwaith i gysylltu a chynyddu'r nifer fawr o weithgareddau cadarnhaol, ond gwahanol, yn y rhanbarth yn mynd yn ei flaen. Buddugoliaeth gynnar yw bid llwyddiannus INTERREG GIFT (Arloesedd Gwyrdd a Thechnoleg i'r Dyfodol).
- Yn *Ne Ddwyrain Cymru*, mae cysylltiadau cryf wedi cael eu meithrin gyda'r gymuned academaidd fel rhan o brosiect RETROFIT y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel. Mae gwaith ar y cynllun gweithredu yn mynd rhagddo. (Karen Morris)

**<u>Cam Gweithredu 7</u> – *Bydd gennym Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni a fydd yn targedu ein buddsoddiadau effeithlonrwydd ynni'n well at y rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd, gan hyrwyddo gwelliannau i bob cartref.***

Cyhoeddwyd y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni ym mis Mawrth 2011. Er mwyn sicrhau bod gan y Cynllun hwn bwrpas clir, mae'n canolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd a'u cynllunio er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a, lle bo'n berthnasol, cynhyrchu ynni carbon isel ar raddfa fach yng Nghymru. Bydd y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni yn cyfrannu at y canlynol:

- Lleihau tlodi tanwydd a helpu i gyflwyno ein Strategaeth Tlodi Tanwydd
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a helpu i gyflawni ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd;
- Creu swyddi a chyfleoedd busnes yn un o'r chwech sector a nodir yn Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd a'n cefnogi wrth i ni gyflwyno ein Strategaeth Swyddi Gwyrdd;
- Gwella perfformiad ynni adeiladau yng Nghymru, gan godi ansawdd cyffredinol y stoc o adeiladau a lleihau costau ynni;
- Adfywio cymunedau yng Nghymru drwy wella gwead adeiladau ac, yn bwysig, drwy greu swyddi a chyfleoedd busnes a fydd yn arwain at gymunedau mwy cydlynol a chynaliadwy;
- Ein polisi ynni ehangach, sy'n cyd-fynd â chynnwys Cymru: Chwyldro Carbon Isel;
- Ymgysylltu â phobl, sefydliadau a busnesau, a'u galluogi i leihau faint o ynni maent yn ei ddefnyddio a bod yn fwy ynni effeithlon;
- Cefnogi rhannu adnoddau mewn modd mwy cyfartal a theg yn gymdeithasol.

__Cam Gweithredu 8__ – ***Byddwn yn gweithio tuag at ddatblygu cyfres o Drefi Teithio Cynaliadwy ym mhob rhanbarth. I fwrw ymlaen â hyn yn y lle cyntaf, byddwn yn datblygu cynllun braenaru mewn ardal drefol fawr. Yn sgil hyn, byddwn yn pennu ac yn datblygu cyfres o drefi sy'n gysylltiedig ag anheddiad allweddol arall a bennir yng Nghynllun Gofodol Cymru.***

Yn 2009/10, cyhoeddwyd Caerdydd fel y Ddinas Teithio Cynaliadwy gyntaf yng Nghymru, a rhoddwyd rhagor o gyllid i Gaerdydd yn 2010/11.

Yn ogystal, yn unol â'r ymrwymiad i Gynllun Teithio Cenedlaethol, cyhoeddwyd Trefi Teithio Cynaliadwy yn Ne Orllewin Cymru (prosiect ar y cyd rhwng Caerfyrddin/Hwlffordd), Canolbarth Cymru (Aberystwyth) a Gogledd Cymru (Môn a Menai, gan gynnwys Bangor) ar gyfer 2010/11. Datblygwyd y cynigion hyn mewn partneriaeth â'r consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol, ac maent yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Rhoddwyd £1m i bob prosiect yn ystod 2010/11, tuag at raglen o fentrau y cytunwyd arni.

## Pennod 3 Cynnal yr Amgylchedd

**Gweledigaeth:** Mae gan Gymru ecosystemau iach, sy'n gweithio, sy'n fiolegol amrywiol, sy'n gynhyrchiol ac sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy.

**Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy:** % y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sydd ar gynnydd.

**Cynnydd:**

O'r rhywogaethau â blaenoriaeth yr oedd digon o wybodaeth ar gael amdanynt, roedd 52 y cant yn cael eu hystyried yn sefydlog neu ar gynnydd yn 2008, o'i gymharu â 40 y cant yn 2002. O'r cynefinoedd â blaenoriaeth yr oedd digon o wybodaeth ar gael amdanynt, roedd canran y cynefinoedd a oedd yn cael eu hystyried yn sefydlog neu ar gynnydd wedi codi mymryn i 39 y cant yn 2008, sy'n gynnydd o 2 y cant er 2002.

• Tueddiadau mewn poblogaethau adar

Dechreuwyd mynegai adar sy'n nythu yn eang yn 1994, ac ar ei uchaf roedd yn 113 ar gyfer pob rhywogaeth yn 2000. Disgynnodd y mynegai i'w bwynt isaf sef 98 yn 2009. Dyma'r tro cyntaf i'r mynegai ddisgyn yn is na 100. Mae gwerthoedd llai na 100 yn dangos cwymp yn y doreth o adar sy'n y wlad er 1994. Nid yw'r data hwn yn cynrychioli'r holl adar yng Nghymru

• Effeithiau ecolegol llygredd aer

Ni fu llawer o newid yng nghanran y cynefinoedd sensitif yng Nghymru a oedd yn rhagori ar lwyth critigol dyddodion asid rhwng 1998-2000 a 2004-06. Fodd bynnag, yn 2006-08, bu cwymp o 2 bwynt canran.

• Ansawdd yr aer

Ym mhob safle gwledig a threfol, mae nifer y diwrnodau lle roedd y llygredd yn gymedrol neu'n uwch wedi amrywio o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, yn 2010, bu i safleoedd monitro gwledig gyrraedd y ffigur isaf ar gyfer nifer y diwrnodau lle roedd y llygredd yn gymedrol neu'n uwch. Gronynnau mân (PM10) a'r oson yw'r prif resymau dros lygredd cymedrol neu uwch mewn safleoedd trefol. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r gwahaniaethau'n adlewyrchu'r amrywiad mewn lefelau oson, sef y prif beth sy'n achosi llygredd mewn ardaloedd gwledig, ac sy'n cael ei ddylanwadu gan y tywydd.

• Ansawdd afonydd

Mae canran y rhannau o afonydd yng Nghymru sydd ag ansawdd cemegol da wedi bod dros 90 y cant yn gyson er 1994, ac mae wedi aros ar oddeutu 95 y cant dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae canran y rhannau o afonydd yng Nghymru sydd ag ansawdd biolegol da wedi codi'n raddol er 2000, gan gyrraedd uchafbwynt o 88 y cant yn 2008, cyn cwympo rhyw fymryn i 87 y cant yn 2009.

• Ansawdd priddoedd

Mae'r Arolwg Cefn Gwlad yn asesu'r tunelli o garbon yr hectar yn y -0-15cm uchaf o bridd yng nghynefinoedd cyffredin Cymru. Dangosodd y canlyniadau fod y stoc garbon gymedrol mewn pridd yn 2007 uchaf dan gynefin rhostir corlwyni, ac isaf mewn priddoedd âr.

• Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Roedd canran y parthau adnoddau yng Nghymru gyda diffygion byffer targed wedi amrywio er 2001-02, ond roedd wedi gwella i'w lefel isaf sef 8 y cant yn 2009-10.Ceir diffygion byffer targed pan fydd faint yn union o gyflenwad dŵr sydd ar gael yn llai na faint y rhagwelir y bydd galw amdano, a'r "byffer targed" ychwanegol.

## Y Strategaeth Amgylcheddol

Cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn cynnydd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol ym mis Tachwedd 2010. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau manwl am ein cyfrifoldebau bioamrywiaeth dan Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Gwelwyd cynnydd hefyd yn y gefnogaeth ar gyfer prosiectau amgylcheddol ymarferol gyda rôl cydlynydd Gwirfoddoli Gwyrdd yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y swydd yn meithrin gallu sefydliadau llai i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n gallu gweithio gyda nhw, a hybu gwirfoddoli gwyrdd ymysg y cyhoedd, yn enwedig grwpiau dan anfantais a grwpiau sy'n cael eu heithrio.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion Cyflwr yr Amgylchedd ym mis Gorffennaf 2010.

## Rheoli tir

Caiff coetiroedd a choed eu cydnabod am eu gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystem, rhoi sylw i effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac amddiffyn bioamrywiaeth drwy eu rheoli'n gynaliadwy, ac fe gaiff y gwasanaethau hyn eu hyrwyddo drwy *Coetiroedd i Gymru*. Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gwneud y canlynol:

- Lansio Cynllun Grant Creu Coetiroedd Glastir er mwyn cyllido cynnydd mewn ardaloedd coetir yng Nghymru;
- Hyrwyddo dysgu awyr agored drwy Fenter Addysg y Coed. Yn ystod 2010/11, roedd hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith yr Ysgolion Coedwig yng Nghymru ymhellach, a thrwy dîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu Comisiwn Coedwigaeth Cymru, darparu ymweliadau addysgol am newid yn yr hinsawdd i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyda phecynnau dysgu cefnogol ar gyfer athrawon a disgyblion.
- Lansio'r fframwaith *Coetiroedd a Chi* i annog y cyhoedd i ymwneud mwy â'r coetiroedd mae'r Comisiwn yn eu rheoli ar ran Llywodraeth Cymru.

**ASTUDIAETH ACHOS: Cymru Fyw – Fframwaith Amgylchedd Naturiol**

Yng ngolau tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am iechyd ecosystemau, ym mis Medi 2010, lansiwyd Fframwaith Amgylchedd Naturiol 'Cymru Fyw'. Roedd yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru, ac roedd yn anelu at sicrhau y rhoddir sylw i'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd. Roedd yn ceisio canolbwyntio ar yr holl fuddion posib o ganlyniad i reoli ein hamgylchedd yn well.

Ar ôl yr ymgynghoriad gwreiddiol, cyhoeddwyd cynlluniau i fabwysiadu dull ecosystem newydd ym mis Chwefror 2011.

Dyma'r prif newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r dull ecosystem hwn:

- Ffocws ar werth yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd, gan gyflawni canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol
- Cyfleoedd i'r cyhoedd chwarae mwy o ran

- Dull cadarnhaol i berchnogion tir, ffermwyr, pysgodfeydd, coedwigaeth, datblygwyr a diwydiannau a reoleiddir adlewyrchu'r nod cyffredin o ddatblygu cynaliadwy, ac i ddarparu newid amgylcheddol cadarnhaol, nid dim ond diogelu'r hyn sydd gennym ni
- Newidiadau yn y ffordd rydym yn cyflawni polisi, yn gwneud penderfyniadau ac yn rheoleiddio'r amgylchedd, i sicrhau bod iechyd a lles ein cymunedau a'n cymdogaethau yn cyrraedd y safonau gorau posib
- Sicrhau bod yr offer cywir i allu cyflwyno'r dull newydd gan y cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am amddiffyn a gwella'r amgylchedd

Nod arweiniol Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gan Gymru ecosystemau sy'n gynyddol wydn ac amrywiol, sy'n rhoi buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Wrth gyflawni'r nod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i blannu'r dull ecosystem yn ei mecanweithiau datblygu polisi a darparu gwasanaeth.

**Rheoli dŵr**

Sefydlwyd Fforwm Diwydiant Dŵr Cymru ym mis Mai 2010, a bu i'r Fforwm gyfarfod ddwywaith yn rhagor yn ystod 2010-11, gan ddarparu mecanwaith ar gyfer ymgysylltu sefydliadau allweddol wrth gynllunio'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli dŵr a gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru, a thrafod materion dŵr strategol, gan gynnwys ansawdd dŵr yr amgylchedd.

Mae'r gwaith o weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi parhau drwy'r gwaith ymchwiliol a'r ymyriadau y ceir eu manylion yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae Fforwm Rhanddeiliaid y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn parhau i gyfarfod, yn ogystal â'r Paneli Cyswllt ar gyfer pob Ardal Basn Afon, er mwyn monitro a llywio camau gweithredu a chanlyniadau.

Rydym yn hybu lleoli systemau draenio dinesig cynaliadwy er mwyn helpu i leihau baich dŵr wyneb ar y system garthffosiaeth, a lleihau'r perygl o lifogydd. Sicrhawyd pwerau sylfaenol ar gyfer Gweinidogion Cymru fel rhan o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Rydym wedi cefnogi'r Comisiwn Ewropeaidd gyda'i fwriad o gyflwyno rheoleiddiad i leihau ffosffadau yn y ffynhonnell drwy leihau faint sy'n cael eu defnyddio mewn powdwr golchi.

**Rheoli'r Môr a'r Arfordir**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu gweledigaeth y DU ar gyfer ein moroedd – iddynt fod yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol. Mae Deddf y Môr a'r Arfordir 2009 yn rhoi'r pwerau i ni ddatblygu cynlluniau i helpu i lwyddo i ddatblygu ein hardaloedd morol yn gynaliadwy, ac integreiddio blaenoriaethau a pholisïau'n ymwneud â'r môr a'r arfordir, yn ogystal â phwerau penodol i reoli gweithgareddau yn y môr yn well a gwarchod bywyd morol, er enghraifft, drwy neilltuo parthau cadwraeth forol a diweddaru ein systemau trwyddedu a rheoli pysgodfeydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Datganiad Polisi Morol y DU, sy'n gosod y fframwaith cyffredinol ar gyfer datblygu cynlluniau morol, gan gynnwys y dull

ecosystem ac integreiddio rhwng y môr a'r tir. Mae wedi cael ei gyflwyno ar gyfer yr ymgynghoriad ar y dull o ddatblygu cynlluniau ar gyfer ardal forol Cymru.

**Rheoli Pysgodfeydd**

Strategaeth Pysgodfeydd Cymru yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli a datblygu pysgodfeydd yng Nghymru ar draws yr holl sectorau dyframaethu, pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd hamdden ar gyfer 2020. Gweledigaeth Strategaeth Pysgodfeydd Cymru yw cefnogi datblygu pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru, fel rhan greiddiol o bolisïau cydlynol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd datblygu a rheoli pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy fel rhan o ecosystemau iach a chynhyrchiol.

Bydd y strategaeth yn cael ei chyflawni drwy'r Cynlluniau Gweithredu a fydd yn cael eu hadolygu'n gyson. Adolygwyd nhw am y tro cyntaf yn ystod 2011, a bydd cynlluniau gweithredu diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn 2012.

Roedd ystod eang o randdeiliaid o'r diwydiant, buddiannau amgylcheddol a rheoli pysgodfeydd yn rhan o gwblhau fersiwn derfynol y cynlluniau gweithredu. Bydd y cynlluniau yn rhoi gwybod pa waith sydd eisoes wedi'i wneud hyd yma, a bydd yn cyflwyno'r dull fesul cam i gynyddu ein gwybodaeth am bysgodfeydd/rhyngweithio amgylcheddol wrth gefnogi datblygu pysgodfeydd yn gynaliadwy, i asesu stoc a nifer y pysgod a ddelir yn well, i archwilio effaith pysgodfeydd ar ecosystemau dŵr, ac archwilio'r rhyngweithio rhwng gweithgareddau pysgodfeydd a'r defnydd arall a wneir o'r amgylchedd dŵr. (Stuart Evans)

**<u>Cam Gweithredu 9</u> – *Yn dilyn adolygiad o Echel II Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, byddwn yn rhoi strwythur cymorth ar waith ar gyfer gwaith rheoli tir sy'n amgylcheddol gynaliadwy, gan gynnwys cymorth i reoli carbon y tir drwy arfer gorau o ran rheoli priddoedd, a rheoli faint o ddŵr sydd a'i ansawdd, bioamrywiaeth, coetir, tirwedd, treftadaeth a mynediad.***

Cafwyd 2,940 o geisiadau i Elfen Cymru Gyfan Glastir (cynllun newydd Cymru ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy) yn 2010, yn ogystal â thros 300 o gymdeithasau pori tir comin yn datgan diddordeb mewn ymuno ag Elfen Tir Comin Glastir. Mae hyn yn llawer mwy na sydd erioed wedi'i dderbyn mewn unrhyw rownd ymgeisio blynyddol ar gyfer y cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol.

Ym mis Tachwedd 2010, gwnaeth y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig gyhoeddi adolygiad annibynnol o'r posibilrwydd o ddarparu opsiynau Elfen Cymru Gyfan ar y ffermydd. Diben hyn fyddai gwneud y gorau o botensial y cynllun i ddarparu ar gyfer ecosystemau drwy ei wneud yn fwy atyniadol i ffermwyr a rheolwyr tir eraill.

Yn gyfan gwbl, gwnaed 69 o argymhellion gan y grŵp adolygu. Derbyniwyd rhai ohonynt i'w gweithredu'n uniongyrchol, ond roedd angen datblygu eraill ymhellach, felly nid oedd modd eu gweithredu'n uniongyrchol. Bydd yr holl newidiadau arfaethedig i'r cynllun yn cael eu gweithredu cyn i'r ail rownd ymgeisio agor ym mis Rhagfyr 2011.

Mae fframwaith monitro a gwerthuso'r cynllun wedi bod yn cael ei ddatblygu drwy gydol 2010-11, a bydd yn asesu'r modd y caiff canlyniadau amgylcheddol eu cyflawni, a'u budd i drethdalwyr, a hynny mewn ffordd sy'n fwy effeithiol o lawer na mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol .

## Pennod 4 Economi Gynaliadwy

| |
|---|
| **Gweledigaeth:** Economi gynaliadwy a chryf i Gymru sy'n gallu datblygu wrth sefydlogi ei defnydd o adnoddau naturiol cyn ei leihau, ac wrth leihau ei chyfraniad at newid yn yr hinsawdd. |
| **Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy:** Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) a GYC y pen<br><br>**Cynnydd:**<br><br>Mae GYC a GYC y pen yng Nghymru wedi codi'n gyson rhwng 1995 a 2008, cyn disgyn yn 2009. Mae GYC Cymru y pen fel cyfran o GYC y DU y pen wedi disgyn o 83 y cant yn 1995 i 74 y cant yn 2009.<br><br>• Cyflogaeth<br>Mae canran yr holl bobl sydd rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru sydd mewn gwaith wedi cynyddu'n *gyffredinol* er 1985. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 3 pwynt canran er 2008.<br><br>• Effeithlonrwydd adnoddau<br>Mae cymhareb allyriadau carbon deuocsid i GYC yng Nghymru wedi disgyn 12 y cant rhwng 2005 a 2007.<br><br>• Trydan o adnoddau adnewyddadwy<br>Mae canran y trydan a gynhyrchir yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy wedi mwy na dyblu er 2002, gan gyrraedd 5.0 y cant yn 2009. |

### Datblygu'r dull gweithredu ar gyfer economi sy'n fwy cynaliadwy

Ym mis Gorffennaf 2010 gwnaethom gyhoeddi Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein gweledigaeth o wneud Cymru yn un o'r gwledydd gorau yn y byd i weithio a byw ynddi. Mae'n dangos y rhan y gallwn ni ei chwarae drwy ddarparu'r fframwaith a'r amodau gorau i alluogi'r sector preifat i dyfu ac i ffynnu. Yn y dyfodol, bydd adnoddau'r llywodraeth yn cael eu targedu at fynd i'r afael â materion systematig eang o fewn Economi Cymru – gan fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau a gwella'r amodau y mae busnesau'n gweithredu o fewn iddynt.

Bydd Adnewyddu'r Economi yn gweld newid sylfaenol yn digwydd, gan symud oddi wrth gefnogaeth uniongyrchol a generig ar gyfer cwmnïau er mwyn canolbwyntio ar greu'r amgylchedd cywir i fusnesau lwyddo ynddo. Trefnir ein dull gan bum blaenoriaeth:

- Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon uchel
- Gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes
- Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau
- Annog arloesedd
- Targedu'r cymorth busnes rydym yn ei gynnig

### Cefnogi Twf Busnes Cynaliadwy

### Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy

Mae Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ystyried anghenion ac ansawdd bywyd cymunedau lleol, yn cyfoethogi a pharchu diwylliant a thraddodiadau lleol, ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd lleol yn ogystal â sicrhau

na wneir llawer o ddifrod i'r amgylchedd. Mae gan Croeso Cymru raglen waith flynyddol ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy, sy'n cael ei rhannu fel a ganlyn: gweithio mewn partneriaeth, sefydlu prosiectau peilot, buddsoddi mewn seilwaith twristiaeth, a gwella ansawdd y cynnyrch twristiaeth gynaliadwy sydd ar gael yng Nghymru. Dyma enghreifftiau dan y rhaglen waith hon:

- *Partneriaeth Môr Glas* – Mae llwyddiant sylweddol wedi bod wrth wella ansawdd arfordir Cymru a chynyddu nifer y traethau sy'n ennill gwobrau. Yn 2011, roedd y gwobrwyon arfordirol yn cynnwys 41 o draethau Baner Las, 5 marina Baner Las, a 46 Gwobr Arfordir Glas.
- *Cynlluniau Peilot i Reoli Parciau Cenedlaethol yn Amgylcheddol 2010* – Bu i dri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru gynnal seminarau a digwyddiadau rheoli amgylcheddol a oedd wedi'u cynllunio i roi sylw i themâu twristiaeth gynaliadwy allweddol, e.e. effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff, ailgylchu a chymryd rhan mewn cynlluniau achredu gwyrdd.
- *Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)* – Lansiwyd y cynllun ym mis Hydref 2010, ac mae TISS ar agor i fusnesau twristiaeth sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru at ddibenion uwchraddio cyfleusterau, er enghraifft cynyddu effeithlonrwydd ynni neu wneud gwelliannau amgylcheddol. Ym mis Awst 2011, lansiwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan TISS, er mwyn gwella profiad yr ymwelwr drwy wella'r cyfleusterau sydd ar gael i ymwelwyr, yn ogystal â'r amgylchedd lleol, wrth gefnogi cynlluniau rheoli cyrchfan.
- *Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol, Categori Twristiaeth Gynaliadwy* – Yn 2010, lansiodd Croeso Cymru gategori twristiaeth gynaliadwy newydd ar gyfer y Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol. Ymgorfforwyd cwestiynau cynaliadwy allweddol i bob categori gwobr arall hefyd.
- *Is-gyfrif Twristiaeth Amgylcheddol a Model Effaith Twristiaeth* – Gweithiodd Croeso Cymru gydag Ysgol Fusnes Caerdydd ar Is-gyfrif Twristiaeth Cymru er mwyn mesur prif effeithiau twristiaeth yng Nghymru ar yr economi a'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gwella data ar garbon, dŵr a gwastraff yn y sector twristiaeth.

## Cefnogaeth i ymchwil a datblygu a masnacheiddio technolegau, cynnyrch a phrosesau cynaliadwy newydd

Un o'r prif raglenni ymchwil a datblygu Carbon Isel a oedd yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru oedd y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel (LCRI). Mae'r Sefydliad yn cynrychioli cydweithredu rhwng nifer o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru sydd wedi dod at ei gilydd i gyflawni ystod o flaenoriaethau ymchwil, o ynni morol i'r defnydd a wneir o gipio a storio carbon.

Caiff LCRI ei gefnogi drwy gynrychiolaeth o'r diwydiant gan RWE nPower, Corus Colours a'r Grid Cenedlaethol, yn ogystal â nifer o gwmnïau eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol ar brosiectau ymchwil penodol. Ceir cynrychiolaeth hefyd o'r maes ymchwil a datblygu, gan gynnwys aelodaeth gan Gyngor Ymchwil Ynni y DU (UKERC), y Sefydliad Technoleg Ynni a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg (TSB).

**ASTUDIAETH ACHOS: Grassohol – Chwilio am fiodanwydd mwy gwyrdd**

Mae prosiect ymchwil arloesol yn dod â gwyddonwyr, ffermwyr, cynhyrchwyr tanwydd a dosbarthwyr ynghyd i ddatblygu dull newydd cynaliadwy o gynhyrchu biodanwydd. Dan arweiniad Sefydliad y

Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), mae'r prosiect yn cyfuno arbenigedd saith partner sy'n arweinwyr yn eu meysydd eu hunain, a chaiff ei gefnogi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) drwy'r rhaglen LINK Deunyddiau Adnewyddadwy, a chan raglen Arbeingedd Academaidd i Fusnesau Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei chefnogi gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) drwy'r prosiect 'Trosglwyddo Gwybodaeth a Chyd-Ymchwilio' sy'n cael ei gyllido gan y Rhaglen Gydgyfeirio.

Mae'r prosiect tair blynedd, Grassohol, dan arweiniad Dr Joe Gallagher yn canolbwyntio ar fathau arbennig o rygwellt lluosflwydd sy'n llawn siwgr, a gaiff eu datblygu yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth, fel deunydd crai ar gyfer cynhyrchu bio-ethanol.

Mae pob dolen yn y gadwyn gynhyrchu yn cael ei hastudio'n fanwl gan dîm y prosiect – o'r ffermwr i'r dosbarthwr biodanwydd – er mwyn datblygu proses gynhyrchu biodanwydd sy'n ymarferol yn fasnachol, nad yw'n cael llawer o effaith ar yr amgylchedd na'r modd y caiff tir ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Mae'r tîm yn defnyddio mathau arbennig o rygwellt lluosflwydd sy'n llawn siwgr, ac yn arbrofi gyda gwahanol briddoedd, gwrtaith a chydgnydau megis meillion gwyn. Y nod oedd lleihau'r angen i fod yn ddibynnol ar wrtaith artiffisial yn seiliedig ar olew. Y gobaith yw i'r broses sy'n cael ei datblygu gael ei hintegreiddio i arferion ffermio cyfredol, ac mae'n cynrychioli gwir gyfle i ddangos potensial proses sy'n berthnasol yn fasnachol sy'n defnyddio cnwd nad yw'n fwyd, y mae digonedd ohono yn y DU, fel deunydd crai. Mae'r canlyniadau cynnar yn addawol, ac yn dangos y gellir cymharu faint o ethanol a ellir ei gynhyrchu i bob hectar o rygwellt bob blwyddyn gyda chnydau ynni eraill, ond bod ganddo'r fantais o fod yn garedig i'r amgylchedd, o allu tyfu ar dir fwy tlawd, ac o fod yn rhatach i'w reoli.

### Seilwaith, adfywio ac uwchgynllunio

Caiff ein cyfarwyddyd *Creu Lleoedd Cynaliadwy Gyda'n Gilydd* ei ddefnyddio fel llawlyfr datblygu cynaliadwy, er mwyn cefnogi datblygu polisïau, gweithgareddau, prosiectau a rhaglenni cynaliadwy ar gyfer ein gwaith i gyd. Mae'n cynorthwyo ac yn cyfarwyddo pob rheolwr yn yr adran ynghylch sut mae prif ffrydio datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Roedd Adroddiad Blynyddol y llynedd yn cynnwys Astudiaeth Achos o sut rhoddwyd hyn ar waith yn achos adfywio Gweithfeydd Dur Glynebwy.

### Cronfeydd strwythurol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu i dîm Thema Drawsbynciol WEFO fynychu dros 170 o gyfarfodydd gyda noddwyr prosiectau, gan roi cyngor iddynt ynghylch sut gall eu prosiectau gymryd camau gweithredu ymarferol sy'n gwella sefyllfa'r economi, yr amgylchedd a chydraddoldeb 'ar lawr gwlad', a hynny mewn modd uniongyrchol. Yn ogystal, rhoddwyd cyngor ynghylch cydraddoldeb a Datblygu Cynaliadwy i 31 o brosiectau a oedd yn gwneud bid i Raglen Drawsffiniol Cymru-Iwerddon.

Dyma enghreifftiau o gamau gweithredu ymarferol i sicrhau datblygu cynaliadwy drwy brosiectau WEFO dros gyfnod yr adroddiad:

- Ar hyn o bryd, mae prosiect SEREN Prifysgol Caerdydd yn datblygu adnodd i helpu i wella perfformiad busnes amgylcheddol, cydraddoldeb, ac yn y pen draw,

economaidd, sefydliadau a mentrau a gefnogir, gyda chyngor a chymorth uniongyrchol gan y tîm Thema Drawsbynciol;

- Cefnogaeth ar gyfer prosiect BEACON Prifysgol Aberystwyth, sy'n ceisio ymchwilio i a hyrwyddo rhoi'r gorau i ddefnyddio cynnyrch sy'n deillio o danwydd ffosil drwy bioburo;
- Mae Coleg Morgannwg yn adeiladu Campws Nantgarw, sydd ar ben ffordd i ennill achrediad 'Rhagorol' BREEAM;
- Cefnogaeth ar gyfer Menter Cyflogaeth Teulu Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (BTCV), sy'n ceisio helpu unigolion dan anfantais i ailgydio ym mywyd y gymuned a'r economi drwy gymryd rhan mewn prosiectau i wella'r amgylchedd a'r gymuned;
- Cefnogaeth ar gyfer prosiect Cenedl Ystwyth Chwarae Teg. Nod y prosiect yw hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, datblygu gyrfa a chyfrannu at leihau'r bwlch cyflog yn y farchnad lafur.

**Sgiliau a hyfforddiant**

Cyflenwi'r Prosiect Sgiliau Carbon Isel

Mae'r Prosiect Cyflenwi Sgiliau Carbon Isel £2m, sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn cynrychioli cydweithredu ar draws pedwar Cyngor Sgiliau Sector – Sgiliau Adeiladu, Sgiliau Ynni a Chyfleustodau, Sgiliau Asedau a SummitSkills – er mwyn rhoi sylw i'r anghenion sgiliau sy'n raddol ddod i'r amlwg, sy'n gysylltiedig â symud tuag at Gymru carbon isel. Mae'r prosiect yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i ddatblygu eu gallu i ddarparu cymwysterau galwedigaethol newydd, sy'n gysylltiedig â buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn ynni adnewyddadwy a rhaglenni effeithlonrwydd ynni, megis cynllun Arbed. Mae ffocws yr hyfforddiant sgiliau, fel rhan o'r prosiect, yn cynnwys:

- Gloywi sgiliau gosodwyr sy'n gweithio ar systemau ffotofoltaïg solar, systemau gwresogi solar a phympiau gwres.
- Datblygu Cynghorwyr Ynni ar gyfer eiddo domestig a masnachol;
- Cefnogaeth ar gyfer darparu Prentisiaethau o fewn y farchnad ynni gwynt ar y tir;
- Gloywi sgiliau ac ailhyfforddi unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu er mwyn iddynt ddeall Dulliau Adeiladu Modern (MCC); a
- Gloywi sgiliau ac ailhyfforddi yng nghyswllt insiwleiddio'r cartref, gan gynnwys insiwleiddio waliau dwbl ac atigau.

Erbyn y cam hwn o'r prosiect, mae cyfanswm o 693 cyfranogwr wedi cyflwyno tendr, ac mae 99 arall am gwblhau rhaglenni 'hyfforddi'r hyfforddwr'.

Sgiliau CREW ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Carbon Isel

Rydym wedi cyd-fuddsoddi â Sgiliau Adeiladu a Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW) i adolygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i gefnogi darparu amgylchedd carbon isel, cynaliadwy, i Gymru. Roedd dadansoddiad yn cynnwys adolygiad o gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch a oedd eisoes ar gael. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi'n fuan ac mae'n cynnwys argymhellion i ddatblygu fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr proffesiynol, megis penseiri, syrfewyr a chynllunwyr trefi.

**Caffael cyhoeddus**

Mae adnoddau a pholisïau caffael a ddatblygir gan Gwerth Cymru wedi sicrhau gwelliannau o ran bwyd a maeth mewn ysbytai, wedi cyflwyno mentrau'n ymwneud â chaffael bwyd lleol, wedi ei gwneud yn haws i gwmnïau bach lleol ennill contractau gan y llywodraeth, ac wedi annog caffael sy'n cymell cyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ddi-waith.

Mae'r dulliau hyn hefyd wedi cefnogi elfennau allweddol o *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*, drwy gynnig cyfleoedd i fusnesau Cymru a chyfrannu at greu buddion a swyddi "gwyrdd" ar gyfer economïau a chymunedau lleol.

**Prif ffrydio datblygu cynaliadwy i'r broses gaffael –** Mae Gwerth Cymru wedi plannu datblygu cynaliadwy mewn egwyddorion ac adnoddau caffael, a dyma rai o'r canlyniadau:

- Defnyddir mwy ar "Fudd i'r Gymuned". Lle defnyddir hyn yn fedrus o fewn prosiectau adeiladu, mae’r Effaith Lluosydd Lleol (o fudd i’r economi leol) wedi bod o leiaf 30% yn fwy na’r cyfartaledd ar gyfer y sector adeiladu. Mae Gwerth Cymru yn cefnogi dros 30 o brosiectau gan ddefnyddio’r dull hwn, sy’n werth oddeutu £2 biliwn;
- Mae’r prif sefydliadau i gyd wedi ymrwymo i Agor Drysau: y Siarter ar gyfer Caffael sy’n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig. Mae hyn, ynghyd â mentrau eraill i wella mynediad at gyfleoedd sector cyhoeddus, wedi cyfrannu at lwyddiant cyflenwyr yng Nghymru wrth iddynt sicrhau 51% o fusnes y sector cyhoeddus erbyn 2008, sy’n gynnydd o’i gymharu â 35% yn 2004;

  Mae cyfnewidcymru wedi lleihau faint o garbon a phapur a ddefnyddir, ac mae’r trafodion hyd yma wedi arbed dros 9m o bapur a 59.3 tunnell o garbon;
- Gwaith ar ddatblygu cyfleoedd ar gyfer contractwyr adeiladu lleol, wrth i fusnesau Cymru sicrhau dyfarniadau gan 22 o’r 39 o fframweithiau a chontractau mawr a sefydlwyd dros y 18 mis diwethaf.

**ASTUDIAETH ACHOS: Caffael Cynaliadwy – Budd i'r Gymuned, Swyddfa Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru**

Ym mis Hydref 2009, rhoddwyd y contract adeiladu ar gyfer Swyddfa Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno i Pochin plc. Ymgorfforwyd y potensial i ddarparu ‘Budd i’r Gymuned’ i’r broses dendro, ac fel rhan o’r bid, fe wnaeth Pochin gynnig mecanweithiau ar gyfer darparu’r budd hwn.

Gweithiodd timau prosiect Llywodraeth Cymru a Pochin yn agos gyda’i gilydd er mwyn cyflawni’r addewid:

- Roedd 52% o’r gweithlu ar y safle yn hanu o’r ardal leol
- Cafodd bobl leol waith yn darparu gwasanaethau diogelwch ac arlwyo i’r safle
- Rhoddwyd safon 'Ragorol' BREEAM i’r adeilad, gan adlewyrchu nodweddion cynaliadwy ei gynllun
- Hefyd, enillodd yr adeilad gategori Adeilad Arbennig Gwobrau BRE, a oedd yn cydnabod yr atebion cynaliadwy sydd ar waith yn yr adeilad
- Yn dilyn digwyddiad ‘Cwrdd â’r Prynwr’ lleol ar ôl ennill y contract, bu i fusnesau lleol sicrhau gwerth dros £400,000 o waith.
- Lle bynnag y bo’n bosib, roedd deunyddiau’n cael eu prynu’n lleol, a defnyddiwyd llafurwyr lleol er mwyn gwario cymaint â phosib yn y gymuned leol
- Darparwyd arwyddion y swyddfa gan fusnes a gefnogir
- Mae £8.7m o gostau’r prosiect wedi cael ei wario yn lleol
- Gweithiodd pedwar ysgol leol gyda thîm y prosiect a’r contractwr i gladdu capsiwl amser
- Ymgysylltu â grwpiau lleol
- Daeth 350 o bobl i ddiwrnod agored

**<u>Cam Gweithredu 10</u> – *Yn ein gwaith adfywio a datblygu economaidd, byddwn yn annog ein partneriaid i fabwysiadu egwyddorion sy’n debyg i’n hegwyddorion ni, gan integreiddio ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a cheisio sicrhau’r manteision mwyaf i’r gymuned a’r economi leol yn sgil y ffordd y gwneir y gwaith adfywio.***

Yr hyn sy'n greiddiol i Greu Lleoedd Cynaliadwy yw ein *Pecyn Integreiddio Datblygu Cynaliadwy* sy'n galluogi rheolwyr i lunio amcanion datblygu cynaliadwy penodol ar gyfer pob un o'n gweithgareddau. Diben hyn yw sicrhau bod ein gwaith yn cyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol datblygu cynaliadwy. Mae'r pecyn a'r llawlyfr yn cael eu hadolygu'n gyson a'u diweddaru yn ôl profiad, ac maent ar gael i adrannau eraill ac i unrhyw bartneriaid, iddynt rannu'r hyn a ddysgir, a'r profiad a geir o'u defnyddio. Defnyddiwyd y pecyn wrth lunio Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd, a chaiff ei ddefnyddio gan dîm Parc Rhanbarth y Cymoedd i sicrhau bod amcanion datblygu cynaliadwy yn greiddiol i bob prosiect.

Yn ogystal, maent wedi cael eu rhannu â rhanddeiliaid allanol megis Comisiwn Cynllunio Cymru, a Newport Unlimited er mwyn creu cynlluniau peilot.

**<u>Cam gweithredu 11</u> – *Drwy ein Strategaeth Swyddi Gwyrdd, byddwn yn pennu llwybr i economi gynaliadwy (Carbon Isel, Gwastraff Isel) i Gymru, ac yn pennu'r swyddogaethau y mae angen i Lywodraeth y Cynulliad eu cyflawni. Byddwn yn rhoi cynllun cyflenwi datganoledig ar waith a fydd yn gwella ac yn dargyfeirio'r camau y bydd rhaid i ni eu cymryd i wneud hyn, ynghyd â fframwaith monitro ac adrodd ar gyfer y cynllun, a fydd yn rhan o fframwaith perfformiad ehangach Llywodraeth Cymru.***

Ym mis Gorffennaf 2010, gwnaeth Llywodraeth Cymru lansio Adnewyddu'r Economi fel ein polisi ar gyfer datblygu economi Cymru.

Un o'n blaenoriaethau yw buddsoddi mewn seilwaith gynaliadwy o safon uchel. Rydym yn gweithio i ddarparu economi carbon isel a gwastraff isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, gan weithio'n agos gyda sectorau, cwmnïau angor a chwmnïau pwysig yn rhanbarthol, gan gydweithio â phartneriaid allweddol a pharatoi strategaethau sector fel y modd targed o ddarparu.

## Pennod 5 Cymdeithas Gynaliadwy

**Gweledigaeth:** Cymunedau diogel, cynaliadwy a deniadol lle mae pobl yn byw, yn gweithio, ac yn cael mynediad at wasanaethau, a lle mae iechyd pobl yn dda ac maent yn gallu chwarae eu rolau llawn fel dinasyddion.

**Prif Ddangosydd Datblygu Cynaliadwy:** % y boblogaeth mewn cartrefi incwm isel

**Cynnydd:**

Ni fu llawer o newid yng nghanran y boblogaeth mewn cartrefi incwm cymharol isel cyn costau tai er 1994/97. Mae canran y boblogaeth mewn cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi gostwng er 1994/97. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar, mae'r ganran wedi bod ychydig yn uwch na'r lefel a welwyd yn 2003/06.

• Anghydraddoldeb iechyd:

Mae'r gyfradd marwolaethau babanod fesul 1,000 wedi codi o 4.1 yn 2008 i 4.8 yn 2009. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn wedi tueddu i godi a gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, gan eu bod yn seiliedig ar niferoedd bychan. Bu cynnydd cyson mewn disgwyliad oes i ddynion ac i ferched er 1991-93.

• Dibyniaeth ar fudd-daliadau

Mae canran y bobl oed gweithio ar fudd-daliadau allweddol wedi disgyn bob blwyddyn rhwng 2000 a 2008. Fodd bynnag, bu cynnydd o 2 bwynt canran yn 2009 i 16 y cant, a bu cwymp o 1 pwynt canran yn 2010.

• Tai

Roedd y sgôr effeithlonrwydd ynni SAP cyfartalog ar gyfer anheddau yng Nghymru yn 50.3 yn 2008, cynnydd o 3.8 pwynt er 2004. Roedd hyn fymryn yn is na chyfartaledd Lloegr yn 2008 (sef 51.4). Mae'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) ar gyfer sgôr ynni anheddau yn cyfrifo effeithlonrwydd ynni adeilad. Mae SAP yn rhoi sgôr rhwng 1 a 100, 1 yw'r gwaethaf a 100 yw'r mwyaf ynni effeithlon.

• Hygyrchedd

Mae canran y cartrefi lle gellir cyrraedd meddygfa, siop fwyd, canolfan siopa neu ysbyty ar droed neu drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn 15 munud neu lai wedi codi er 2005/06.

• Troseddu

Mae cyfanswm nifer y troseddau caffael difrifol a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru wedi disgyn 12 y cant ers y flwyddyn flaenorol i 36,000 yn 2009-10.

Roedd nifer yr holl droseddau cartref yng Nghymru fesul 10,000 o gartrefi (fel a gofnodwyd gan Arolwg Troseddu Prydain) wedi cynyddu rhwng 2004-05 a 2006-07, cyn disgyn yn raddol i'w lefel isaf yn 2009-10.

### Mynd i'r afael ag anfantais

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru drwy ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau allweddol ar gyfer cymunedau lleol, sy'n lleihau anghydraddoldeb ac yn dangos newid mesuradwy ar gyfer cymunedau lleol.

Mae Cronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei datblygu i gefnogi cymunedau wrth iddynt gyflwyno prosiectau, mewn Partneriaeth â darparwyr

gwasanaethau allweddol sydd hefyd yn rhoi cyllid cyfatebol i'w cefnogi. Mae'r prosiectau hyn yn cefnogi'r chwech amcan allweddol dan y Fframwaith Gweledigaeth, gan gynnwys iechyd, tlodi plant a'r amgylchedd. Ers lansio'r Gronfa Ganlyniadau, mae wedi cefnogi 61 o brosiectau gan dderbyn bron i £4m yn 2010/11.

**ASTUDIAETH ACHOS: Cymunedau yn Gyntaf – Ynni Cynaliadwy yng Nghwm Clydach**

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae Cymunedau yn Gyntaf yng Nghwm Clydach wedi bod yn datblygu cynlluniau uchelgeisiol i gynhyrchu ynni yn lleol. Roeddynt wedi cynllunio i osod dau generadur trydan hydro micro, ac fe gwblhawyd y cyntaf ym mis Mawrth 2011. Er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd prosiectau cymunedol lleol allweddol ymhellach, bydd y ddau bartner allweddol, Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Cwmclydach ac Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian, yn cael 75% a 25% o'r incwm a fydd yn cael ei greu. Bydd yr incwm hwn yn cefnogi tri adeilad ac yn helpu'r ddau bartner gyda'u bwriad o sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor canolig a'r tymor hir, a pheidio â bod mor ddibynnol ar grantiau.

Mae un o'r adeiladau (Adeilad Lakeside) yn ffurfio rhan o'r fenter gymdeithasol leol, a rhoddwyd estyniad arno'n ddiweddar. Mae nodweddion ynni amgen wedi'u hadeiladu yn yr estyniad, gan gynnwys paneli solar a system ffotofoltaïg solar, a system gynaeafu dŵr glaw sydd, ynghyd â'r peiriant hydro, yn dod yn atyniad addysgol i bobl gan gynnwys grwpiau ysgol.

Mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf bellach wedi dechrau gweithio ar ymgysylltiad cymunedol er mwyn lleihau'r ôl troed carbon lleol. Y gobaith yw y bydd 100 o gartrefi yn barod i dreialu'r prosiect; mae ysgolion lleol wedi cytuno i gymryd rhan hefyd.

## Tai o ansawdd

Mae tai yn sylfaenol i iechyd a lles, ac mae'n gwneud cyfraniad o bwys i ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol. Lansiwyd ein Strategaeth Dai ym mis Ebrill 2010, ac mae'n canolbwyntio'r gweithredu dros y blynyddoedd nesaf ar gynyddu'r cyflenwad o dai, gwella eu hansawdd a gwella safon y gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl er mwyn byw'n annibynnol. Mae hyn yn arbennig o wir i'r rheini sydd mewn angen neu sy'n arbennig o agored i niwed.

Mae camau gweithredu i wella ansawdd cartrefi sydd eisoes yn bodoli yn parhau i gael eu cymryd, yn arbennig o ran effeithlonrwydd ynni, drwy gynlluniau megis Arbed, Ardaloedd Adnewyddu a Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae data diweddar wedi awgrymu y bydd dros 78% o holl gartrefi cymdeithasau tai yn bodloni'r safon hwn erbyn diwedd 2012-13, ynghyd ag 87% o gartrefi awdurdodau lleol[7].

Ochr yn ochr â'r nod o gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddefnyddio cynllun hyfforddi a recriwtio sydd wedi'i dargedu (i2i) i sbarduno adfywiad economaidd mewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant lleol wedi'u hanelu at y rheini sy'n economaidd anweithgar, i ddarparu sgiliau go iawn a rhagolygon gwaith. Mae mabwysiadu technoleg adnewyddadwy hefyd wedi cael ei hybu'n weithredol drwy'r gwaith hwn.

Er 2008, mae Cartrefi Conwy wedi darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol, a'r canlyniad oedd dros 150 o swyddi newydd gyda chysylltiadau lleol. Mae Newport

[7] ac eithrio tri awdurdod lleol sydd wedi cael 'dim pleidlais' a dau awdurdod a fydd yn cynnal pleidlais ar y mater eleni.

City Homes wedi dweud bod rhaid i'r contractwr greu wythnos o hyfforddi ar gyfer 250 o bobl am bob £1miliwn o waith WHQS. Hefyd, mae Tai Cymunedol Bron Afon wedi creu 100 o swyddi newydd o fewn y mudiad yn y flwyddyn gyntaf; mae 43 prentis yn cael ei hyfforddi, mae 17 o ddisgyblion ysgolion lleol ar leoliadau profiad gwaith, ac mae'r mudiad wedi agor caffi busnes cymunedol sy'n rhoi lleoliadau hyfforddi i oedolion sydd ag anawsterau dysgu.

**Byw'n iach**

Un o'r themâu allweddol yn *Ein Dyfodol Iach* yw lleihau mwy ar ysmygu ac anadlu mwg ail law.  Yn ddiweddar, gwnaethom ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Rheoli Tybaco er mwyn bwrw ymlaen â hyn.

Ar hyn o bryd, mae Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio tuag at gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm erbyn 2013. Mae Cyngor Sir Gâr yn enghraifft o arfer da yn y maes hwn. Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Ne Orllewin Cymru, sy'n cyflogi dros 9,000 o bobl, gyda 74 o aelodau etholedig, mae'r awdurdod lleol yn dilyn ôl traed Magnox North: Gorsaf Bŵer Wylfa wrth gyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm.

Mae cyfarwyddyd wedi'i roi i ardaloedd lleol greu cynlluniau gweithredu gweithgaredd corfforol a fydd yn cysylltu â Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Bydd y rhain yn annog datblygu cynlluniau lleol i gynyddu gweithgaredd corfforol gan gynnwys cerdded a seiclo.

Mae Planet Health Cymru (Cynllunio ar gyfer yr Amgylchedd, Trafnidiaeth ac Iechyd yng Nghymru), sef pecyn cymorth ar y we, wedi cael ei lansio[8]. Mae'n darparu 'siop un stop' i gynorthwyo cydweithio, gan roi manylion gwybodaeth allweddol, pecynnau cymorth, dogfennau ac enghreifftiau o arferion cyfredol i'w defnyddio gan ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes cynllunio, trafnidiaeth, cynllunio dinesig, datblygu, pensaernïaeth ac iechyd cyhoeddus, yn ogystal ag unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros wella iechyd y genedl.

Mae cyfarwyddyd wedi'i ddatblygu ar gyfer bwyd a weinir mewn canolfannau hamdden, clybiau ieuenctid ac ysbytai. Yn ogystal â hyrwyddo darparu bwyd sy'n cefnogi dewisiadau iach, mae pob dogfen yn trafod datblygu cynaliadwy, gan gynnwys materion megis caffael bwyd lleol a lleihau gwastraff bwyd.

Mae gwaith wedi'i wneud i fynd â Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru i sefydliadau cyn ysgol.   Manteisiwyd ar y cyfle i gysylltu'r gwaith hwn â Datblygu Cynaliadwy, drwy'r Cynllun Sefydliadau Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy.  Mae grantiau bach ar gael ar gyfer cyflwyno'r cynllun, ac mae amrywiaeth o bobl broffesiynol wedi cael eu hyfforddi i gefnogi gweithredu'r cynllun.

**Ansawdd bywyd lleol**

Menter rhwng Cadwch Gymru'n Daclus ac awdurdodau lleol Cymru yw Trefi Taclus, ac mae'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn

---

[8] http://www.planethealthcymru.org/ adnodd

darparu'r elfen ymgysylltu cymunedol ledled Cymru, ac mae'n grymuso pobl Cymru i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu hamgylchedd lleol. Mae amddiffyn bywyd gwyllt yn rhan hanfodol, ac mae dros 370 o brosiectau wedi'u cynnal er mwyn gwella neu gynnal ardaloedd er budd i rywogaethau a warchodir neu sydd dan fygythiad. Yn ogystal, mae dros 1500 o brosiectau wedi cael eu cyflawni er mwyn gwella cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth dros Gymru gyfan, gan gynnwys cael gwared ar Ganclwm Japan, Ffromlys Chwarennog a rhododendron.

Byrddau Gwasanaethau Lleol:

Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol ledled Cymru yn datblygu dulliau cynaliadwy arloesol o ddarparu gwasanaethau, er enghraifft dull rheoli'r gymdogaeth yng Nghaerdydd, sydd wedi ennill bri. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau cydweithrediad rhwng partneriaid er mwyn lleihau'r gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol rhwng cymdogaethau. Mae Torfaen a Chastell-nedd Port Talbot, yn ogystal ag ardaloedd gwledig megis Powys, wedi mabwysiadu'r dull.

Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol hefyd yn darparu arweiniad o ran lleihau carbon; mae Bwrdd Gwasanaethau Sir y Fflint yn gweithio gyda phartneriaid allweddol megis heddlu Gogledd Cymru, ymddiriedolaeth y GIG a Choleg Glannau Dyfrdwy, ac mae wedi nodi'r posibilrwydd o arbed £80m erbyn 2050 drwy wella'r defnydd o ynni. Yng Ngwynedd, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi gosod targedau ar gyfer lleihau 15-20% ar allyriadau carbon ynni a thrafnidiaeth erbyn 2013. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy, Powys a Sir Gâr wedi gosod ffocws tebyg ar ddarparu gwasanaethau mewn modd cyd-gysylltiedig er mwyn llwyddo i leihau allyriadau carbon yn sylweddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop £13 miliwn sydd wedi'i gymeradwyo gan WEFO i ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol a chyflwyno prosiectau blaenoriaeth. Un o'r 5 thema generig sy'n llifo drwy hyn yw datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn darparu'r gallu cyfunol i arwain, a'r gallu i rannu arbenigedd yn lleol, ac ymuno â'r gallu a'r arweinyddiaeth genedlaethol. Bydd bwrw ymlaen â hyn yn golygu digwyddiadau rhwydwaith, a hyrwyddir gan swyddogion datblygu lleol y Byrddau Gwasanaethau Lleol, er mwyn dod â chynrychiolwyr o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ynghyd, targedu'r rheini nad ydynt yn arbenigo ym maes cynaliadwyedd a darparu hyfforddiant arbenigol.

**Dinasyddiaeth fyd-eang ac ymgysylltu'n rhyngwladol**

Mae rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn ceisio cefnogi ymdrechion Cymru i helpu i gyflawni Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm, sef haneru tlodi erbyn 2015. Mae'n adlewyrchu'r dyhead parhaus i Gymru fod yn genedl sy'n edrych tuag allan, sy'n hyderus wrth gydnabod y cyfraniad y gallwn ei wneud i'r byd fel dinasyddion byd-eang gweithgar a chyfrifol.

Erbyn diwedd 2010-11, roedd prosiect Cysylltiadau Cymunedol Cymru Affrica wedi cefnogi 166 o brosiectau cymunedol, gan fynd i'r afael â thlodi yn Affrica a darparu buddion i'r rheini yng Nghymru sy'n ymwneud â'r gwaith. Bu i Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig gymeradwyo'r fenter, gan ddweud ei bod yn arwain y byd drwy esiampl.

Mae'r 23+ o Gysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica wedi parhau i gynyddu'u heffaith, gan ddarparu hyfforddiant hanfodol sy'n achub bywydau i weithwyr gofal iechyd yn Affrica, cefnogi merched wrth iddynt roi genedigaeth a darparu ambiwlansys beic a beic modur i gludo pobl yn yr ardaloedd mwyaf gwledig i'r clinig neu'r ysbyty.

Gwnaethom hefyd barhau i weithio gyda'r gymuned Somali yn Ne Cymru i ddatblygu mentrau cymunedol Cymru-Somalia sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad. Gwnaethom hefyd gefnogi grwpiau alltud Affricanaidd eraill yng Nghymru – o Zimbabwe, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo a mannau eraill – i ddatblygu eu gweithgareddau i gefnogi eu mamwlad.

Ym mis Hydref 2010, fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol lansio prosiect partneriaeth rhanbarthol arloesol newydd yn swyddogol, sef prosiect dan nawdd Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig (a gyllidir gan Lywodraethau'r DU a Denmarc), er mwyn i Gymru gynorthwyo ardal Mbale yn Uganda i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae effeithiau dinistriol newid yn yr hinsawdd eisoes i'w gweld yn Mbale, ac maent yn effeithio ar y bobl dlotaf. Ddechrau 2010, bu i law trwm achosi tirlithriad ar lethrau mynyddoedd Mbale. Roedd effeithiau'r tirlithriad yn waeth oherwydd bod coedwigoedd yr ardal wedi'u difa. Lladdwyd 300 o bobl o gymunedau ffermio tlawd. Mae gwaith bellach wedi dechrau gyda phrosiect i blannu hyd at 1 miliwn o goed yn ardal Mbale, ar y cyd â phrosiect Maint Cymru.
Fe wnaeth yr ymgyrch Cenedl Masnach Deg barhau i dyfu, wrth i 80% o awdurdodau lleol, a bron i hanner holl drefi Cymru, ennill statws Masnach Deg.

**<u>Cam Gweithredu 12</u> – *Caiff ein rhaglen flaenllaw, Cymunedau yn Gyntaf, ei had-drefnu i sicrhau ei bod yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau cynaliadwy i bobl a chymunedau lleol gan fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, tlodi plant a sicrhau'r incwm mwyaf posibl.***

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i gymunedau yn gynaliadwy, gan leihau anghydraddoldeb a hyrwyddo Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae Cronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn helpu i sicrhau gwell integreiddio o ran

gweithredu cymdeithasol, drwy rymuso'r gymuned, gyda'r prif ddarparwyr gwasanaethau lleol.

<u>Cam Gweithredu 13</u> – ***Byddwn yn buddsoddi £190 miliwn yn iechyd y cyhoedd a gwella iechyd drwy Fframwaith Strategol Cymru ar gyfer Iechyd y Cyhoedd "Ein Dyfodol Iach", a fydd hefyd yn gwella ansawdd a hyd bywyd ac yn gwella tegwch ym maes iechyd.***

Un o brif egwyddorion Ein Dyfodol Iach yw mabwysiadu dull *Iechyd ym mhob Polisi*, gan annog Llywodraeth Cymru a phartneriaid sector cyhoeddus i ddatblygu polisïau a strategaethau sy'n gwella iechyd, nad ydynt yn hyrwyddo ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd gwael. Dim ond drwy'r cydweithredu hwn o ran y ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd y byddwn yn gallu creu Cymru gynaliadwy a iach, gyda chanlyniadau tecach i bawb.

*Cyhoeddwyd Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb (FHOFA): Cynllun Gweithredu Strategol i Leihau Anghydraddoldebau mewn Iechyd* ym mis Mawrth 2011. Mae cynllun FHOFA yn:

- Gosod gweledigaeth ar gyfer gwell iechyd a lles i bawb, gyda chyflymder y gwella yn cynyddu yn unol â lefel yr anfantais;
- Gosod targed newydd i wella disgwyliad oes iach i bawb ac i leihau'r gwahaniaethau o ran anfantais rhwng gwahanol grwpiau yng Nghymru.

<u>Cam Gweithredu 14</u> – ***Byddwn yn sicrhau y bydd datblygu cynaliadwy yn un o amcanion craidd y GIG wedi'i ailstrwythuro yn ei holl waith, drwy roi dyletswyddau clir i'r cyrff newydd ddangos arfer gorau ym meysydd cynllunio a dylunio, adeiladu, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, ac o ran y defnydd o ynni a dŵr.***

Rydym wedi ymgorffori ymrwymiadau datblygu cynaliadwy i ofynion llywodraethol cyrff newydd y GIG (a grëwyd o ganlyniad i Ddiwygio'r GIG yn 2009/10) yn ôl cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Mae Gweithgor Datblygu Cynaliadwy newydd sy'n dod â chynrychiolwyr y GIG a swyddogion y llywodraeth ynghyd wedi'i sefydlu er mwyn bwrw ymlaen â hyn.

Mae'r GIG wedi parhau i ganolbwyntio'n fanwl ar leihau allyriadau a faint o ynni a ddefnyddir. Yn ogystal, rydym yn symud trefniadau yn eu blaenau ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth, ac yn edrych ar sut gellir symud datblygu cynaliadwy yn ei flaen o fewn y rhaglenni cenedlaethol sydd wedi'u sefydlu i gefnogi cynllunio yn y Byrddau Iechyd Lleol newydd.
Yn fwyaf diweddar, mae'r GIG wedi bod yn newid y pwyslais oddi ar ddefnyddio ynni a thrafnidiaeth, er mwyn rhoi sylw i faterion ehangach yn ymwneud â chynhyrchu carbon, a'r bwriad yw llunio strategaeth carbon isel ar gyfer GIG Cymru. I hwyluso hyn, mae gwaith wedi dechrau ar gyfrifo ôl troed carbon GIG Cymru a fydd yn sail i gyfeiriad a chynnwys y strategaeth carbon isel.

<u>Cam Gweithredu 15</u> – ***Byddwn yn sicrhau y caiff pob cymuned yng Nghymru ei hannog i ymuno â chynllun Cymunedau Seren Aur i gysylltu â chymuned yn***

***Affrica Is-Sahara, a byddwn yn eu cefnogi i helpu i ddatblygu, gan feithrin cydlyniant cymunedol yn y wlad hon.***

Yn ystod 2010-11 mae Cysylltiadau Cymunedol Cymru Affrica, a gyllidir gan raglen Cymru o Blaid Affrica, wedi tyfu i gefnogi rhwydwaith o 85 o sefydliadau cysylltiol sy’n cynnal dros 160 o brosiectau datblygu arloesol ar raddfa fach drwy weithredu gwirfoddol, sy’n gwella bywoliaeth, amgylchedd, ieuenctid, iechyd a chytgord cymdeithasol cymunedau yng Nghymru ac Affrica.  Yn ystod 2010-11, mae’r rhaglen wedi darparu:

- Gwefan newydd, www.walesafrica.org, sy’n cyfuno’r rhwydwaith o brosiectau sefydliadau sy’n cysylltu’r cymunedau gydag adnoddau arfer da, gwybodaeth am gyllid, newyddion a digwyddiadau.
- Adroddiad gwaelodlin ‘Cymdeithas Sifil Cymru ac Amcanion Datblygu’r Mileniwm’ sy’n rhoi’r dadansoddiad cyntaf i gael ei gyhoeddi o natur cyfraniad Cymru i Amcanion Datblygu’r Mileniwm. Mae ffilm fer sy’n dangos cyfraniad sefydliadau Cymru i Amcanion Datblygu’r Mileniwm yn cyd-fynd â’r adroddiad.
- Rhaglen hyfforddi newydd ‘Gwneud Gwahaniaeth i Ddatblygu Rhyngwladol’, sy’n defnyddio arbenigedd i ddatblygu gallu a sgiliau sefydliadau Cymru wrth gynllunio, cyllido, ymgyrchu, asesu effaith a chyfathrebu prosiectau rhyngwladol. Mae hyn yn ychwanegol i gynhadledd flynyddol Cysylltiadau Cymunedol Cymru Affrica, sydd bellach wedi ennill ei blwyf, ac a gynhelir eleni yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth.
- Mae grantiau bach (£750 – £3,000) wedi cael eu rhoi i 48 o brosiectau cysylltu cymunedau, er mwyn cefnogi datblygu prosiectau partneriaeth, gwirfoddolwyr a sefydliadau yng Nghymru
- Mae grwpiau gwirfoddol wedi bod yn rhoi cyngor a chymorth sylweddol ynghylch datblygu. Cafwyd dros 150 o ymweliadau prosiect a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi cysylltiadau i ddilyn camau fframwaith Seren Aur y Cenhedloedd Unedig.

## Pennod 6 Lles Cymru

**Gweledigaeth:** Cymru deg, gyfiawn a dwyieithog, lle caiff dinasyddion o bob oedran a chefndir eu grymuso i benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain, llywio eu cymunedau a chyflawni eu potensial yn llawn.

**Prif Ddangosydd Datblygu Cynaliadwy:** Lles yng Nghymru

**Cynnydd:**

Ni fu llawer o newid yn y sgoriau lles corfforol a meddyliol er 2003/04. Mae'r sgoriau cymedrig meddyliol a chorfforol ar gyfer merched yn is na'r rheini ar gyfer y dynion, gan awgrymu iechyd a lles gwaeth i ferched.

Yn 2009/10, fe wnaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru ganfod bod 85 y cant o oedolion yn fodlon â'u bywydau yn gyffredinol, a 4 y cant yn anfodlon.

• Addysg

Mae canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi codi o 61 y cant yn 1999 i 78 y cant yn 2010. Mae canran y bobl ifanc yng Nghymru rhwng 19 a 21 oed sydd â chymhwyster NQF lefel 2 o leiaf wedi bod yn weddol sefydlog er 2001. Mae canran yr oedolion sydd â chymhwyster NQF lefel 4 wedi codi er 2001. Bellach, mae cymhwyster lefel 4 gan fwy o ferched nag o ddynion.

• Tlodi plant

Mae canran y plant yng Nghymru mewn cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi disgyn er 1994/97, ond mae wedi codi dros y blynyddoedd diweddar. Tan yn ddiweddar, roedd cartrefi incwm cymharol isel cyn costau tai yn dilyn patrwm tebyg. Er 2005/08, mae canran y plant yng Nghymru mewn cartrefi incwm cymharol isel cyn costau tai wedi disgyn.

• Tlodi pensiynwyr

Mae cwymp bach wedi bod yng nghanran y pensiynwyr mewn cartrefi incwm cymharol isel cyn costau tai. Mae canran y pensiynwyr mewn cartrefi incwm cymharol isel ar ôl costau tai wedi disgyn yn sylweddol. Mae'r canrannau cyn ac ar ôl costau tai wedi cyrraedd y lefel isaf er 1994/97.

• Cartrefi di-waith

Rhwng 1997 a 2000, bu prin dim newid yng nghanran y bobl rhwng 16 a 64 oed yn byw mewn cartrefi di-waith. Fodd bynnag, bu cwymp rhwng 2001 a 2008, cyn i'r canran godi yn 2009 a 2010. Mae'r ffigurau ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith wedi dilyn patrwm tebyg. Yn 2010, roedd 17 y cant o blant yn byw mewn cartrefi di-waith.

• Cymryd rhan weithredol yn y gymuned

Er 2001, mae canran y bobl sy'n gwirfoddoli yn ffurfiol neu'n anffurfiol o leiaf un waith y mis yn y 12 mis wedi codi a gostwng bob blwyddyn. Nid oes arwyddocâd ystadegol i'r newidiadau hyn.

• Yr iaith Gymraeg

Mae canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 wedi codi er 2000.

### Cymdeithas Deg

Mae mynd i’r afael â thlodi plant yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ym Mlaenau Gwent, nodwyd bwlch cefnogi teuluoedd yn y broses Tîm o Amgylch y Plentyn (TAC). Mae prosiect bellach wedi cael ei ddatblygu, ac yn cael ei gyflawni gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n gweithio'n agos gyda'r bwrdeistref. Erbyn mis Mawrth 2011, roedd wedi recriwtio, hyfforddi a grymuso 53 o wirfoddolwyr i ymgysylltu a bod yn gyfaill i deuluoedd gyda phlant rhwng 5 ac 8 mlwydd oed, gan wella mynediad y teuluoedd at wasanaethau hen a newydd.

Mae’r broses hon wedi gweld gwirfoddolwyr yn ategu gwaith gwasanaethau gwirfoddol a statudol drwy’r broses TAC wrth sicrhau gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ym Mlaenau Gwent.

Seilir y prosiect ar y gred bod y gefnogaeth unigryw sy'n cael ei chynnig gan wirfoddolwyr wedi cynorthwyo teuluoedd i integreiddio o magu hyder o fewn eu cylch teulu eu hunain, yn ogystal â'r gymuned ehangach.

**Dysgu gydol oes**

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn elfen anhepgor o’r Cyfnod Sylfaen – Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Mae'n blanedig yng nghwricwlwm ysgol Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 oed. Caiff yr holl gyfarwyddyd cwricwlwm i hybu datblygu cynaliadwy ei greu yn ddwyieithog, ac mae'n berthnasol i bob lleoliad; ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog.

Mae gan ADCDF le clir ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, megis gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Mae hefyd yn un o’r pum thema yn y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 7 ac 19 oed yng Nghymru.

I ddysgwyr rhwng 7 ac 14 oed, ceir cyfleoedd i ddysgu am ADCDF yn y rhan fwyaf o bynciau – daearyddiaeth, technoleg dylunio a gwyddoniaeth yn arbennig. Mae hefyd yn ymddangos yng Nghraidd Dysgu Llwybrau Dysgu 14-19, ac yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Er mwyn cefnogi ysgolion Cymru wrth iddynt ddarparu ADCDF/ datblygu cynaliadwy, rydym wedi comisiynu adnoddau addysgu dwyieithog newydd i’w defnyddio mewn sefydliadau Cyfnod Sylfaenol ac mewn ysgolion cynradd, drwy ein proses nodi anghenion.

Mae ADCDF hefyd yn ymddangos yn amlwg yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Wrth wneud penderfyniadau am ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion, mae arolygwyr yn ystyried i ba raddau...

- mae’r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yn helpu disgyblion i ddatblygu’r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a’r gwerthoedd sydd ynghlwm ag ADCDF;

- mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy, er enghraifft wrth ddefnyddio ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

Mae'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn helpu i sicrhau y bydd adeiladau ysgolion a'r ffordd maent yn cael eu rheoli yn atgyfnerthu negeseuon cadarnhaol ynghylch sut mae egwyddorion datblygu cynaliadwy yn gweithio'n ymarferol. Lansiwyd y rhaglen ym mis Mawrth 2010. Mae'r Cyfnod Pontio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, cyn dechrau'r Rhaglen go iawn. Ymysg pethau eraill, bydd y rhaglen yn cyflwyno Safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer holl ysgolion Cymru, a fydd yn lleihau costau rheolaidd, faint o ynni gaiff ei ddefnyddio ac allyriadau carbon. Bydd y safon ar gael ym mis Gorffennaf 2011.

Llwybrau Dysgu 14-19

Drwy Lwybrau Dysgu 14-19, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt, ac ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith sgiliau uchel neu addysg uwch. Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn cyfrannu at ddangosydd Datblygu Cynaliadwy 24b Llywodraeth Cymru, sef codi canran y bobl rhwng 19 a 21 oed sydd â chymhwyster Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol lefel 2 o leiaf.

Addysg Bellach

Mae Colegau Addysg Bellach yn ymwneud â darparu ADCDF, ac mae nifer ohonynt yn cyflwyno arferion datblygu cynaliadwy drwy eu hystadau a'u cwricwlwm. Mae'r llythyr cylch gwaith a anfonwyd i golegau Addysg Bellach ym mis Mawrth 2011 yn annog pob sefydliad i lofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Addysg Uwch

Mae'r Academi Addysg Uwch yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i Grŵp Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang y sector Addysg Uwch, sy'n cynnig fforwm ar gyfer datblygu a rhannu arferion gorau. Caiff pob Sefydliad Addysg Uwch ei gynrychioli yn y grŵp hwn, sydd hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith parhaus a wneir gan Brifysgol Cymru Casnewydd, a Phrifysgol Abertawe, ar Ganolfan Arbenigedd Ranbarthol y Cenhedloedd Unedig.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Carbon Cymru, a Chymdeithas Amgylcheddol Prifysgolion a Cholegau, i ddarparu gwell cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae systemau rheoli amgylcheddol sydd wedi'u gwirio'n allanol ar waith gan bump Sefydliad Addysg Uwch, a rhagwelir y bydd y nifer yn codi i saith yn fuan.

Gwasanaeth Ieuenctid

Bwriad y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yw hyrwyddo ac annog cyfleoedd yn weithredol i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed gyflawni eu potensial fel unigolion sydd wedi'u grymuso ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau. Mae Gweithwyr Ieuenctid

yn cefnogi pobl ifanc drwy newidiadau arwyddocaol yn eu bywydau. Yn ystod oes y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid 2007-2010, roedd dros 300,000 o bobl ifanc yn cael cefnogaeth.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae Awdurdodau Lleol yn cael cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae gwaith yn cael ei wneud o fewn y sector i ddatblygu dulliau o blannu arferion ADCDF wrth sicrhau darpariaeth ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Dysgu seiliedig ar waith

Rhwng mis Ebrill 2010 a mis Mawrth 2011, gwnaethom gyllido Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (y corff cynrychioliadol ar gyfer darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) i gynnal gweithdai gydag Ymlaen Ceredigion i hyrwyddo plannu ADCDF drwy godi ymwybyddiaeth a datblygu adnoddau penodol i'r sectorau a ellir eu defnyddio i ddarparu dull integredig o gyflwyno ADCDF. Mae'r gweithdai wedi'u cynnal, a dylai'r adnoddau fod wedi'u cwblhau erbyn mis Medi eleni.

**Diwylliant cyfoethog ac amrywiol**

Yr Iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu, a gwelwyd y datblygiadau allweddol canlynol yn 2010-11: Mesur y Gymraeg, ymgynghoriad ar Strategaeth newydd yr Iaith Gymraeg a Chynllun Iaith Gymraeg ddiwygiedig. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fesur y Gymraeg (Cymru) ym mis Chwefror 2011. Ymysg pethau eraill, mae'r Mesur yn:

- cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg;
- creu system newydd o osod dyletswyddau ar gyrff i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- creu Comisiynydd y Gymraeg gyda phwerau gorfodi cryf i amddiffyn hawliau siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- creu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i gynghori'r Llywodraeth ar ei strategaeth o ran y Gymraeg.

Ym mis Rhagfyr 2010, gwnaethom lansio ein hymgynghoriad ar strategaeth ar gyfer y Gymraeg: Iaith Fyw: Iaith Byw, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith a'r hyn y byddwn ni, ynghyd â'n partneriaid, yn ei wneud i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.
Ym mis Mawrth 2011, gwnaethom lunio Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig i ddangos ein hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg, a'n hymrwymiad i well cydymffurfio. Mae'n dweud pa wasanaethau y gellir eu disgwyl gennym yn glir wrth ein cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae rhaglen Cadw o astudiaethau nodweddion trefol er mwyn dod o hyd i ddatblygiadau a hynodrwydd hanesyddol ardaloedd penodol wedi parhau i fod yn sylfaen ar gyfer cynlluniau adnewyddu cynaliadwy. Cwblhawyd astudiaethau, a lluniwyd adroddiadau ar gyfer Aberdâr, Dolgellau, Fflint, Glannau Caernarfon, Dinbych, Blaenau Ffestiniog, Pont-y-pŵl, Aberystwyth ac ardal Cefn Mawr, Wrecsam. Mae adroddiad yn cael ei lunio ar hyn o bryd ar ôl cynnal astudiaeth o Ferthyr Tudful. Caiff gwaith ar yr astudiaethau hyn ei gefnogi gan gyswllt agos â'r awdurdodau lleol perthnasol a'n Hadran Adfywiad Strategol.

Drwy'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, mae Cadw wedi rhoi cyllid at raglen gynhwysfawr yng Nghastell Ystumllwynarth Dinas a Chyngor Abertawe, a ddechreuodd ym mis Medi 2010, wedi'i chynllunio i wella mynediad at y safle, a'i apêl i ymwelwyr. Yn Abaty Ystrad Fflur, mae'r Prosiect wedi cyllido ailwampio'r ganolfan ymwelwyr yn gyfan gwbl. Agorwyd y ganolfan i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2011. Yn ogystal, gwnaed llawer o waith i wella'r cyflwyno, a'r dehongli ar y tu allan. Y bwriad oedd helpu ymwelwyr i ddeall a gwerthfawrogi'r abaty eiconig hwn yng Nghymru yn well.

**Cam Gweithredu 16** – ***Ar y cyd â'n partneriaid, byddwn yn cyflwyno pob un o'r camau blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang erbyn diwedd 2009, ac o hyn byddwn yn diweddaru ac yn adolygu'r cynllun er mwyn rhoi ffocws newydd o 2010-2014.***

Mae sefydlu'r agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys rhoi'r Cynllun Gweithredu blaenorol ar waith, wedi golygu gwell dealltwriaeth ac ymgysylltiad o ran ADCDF. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar brif ffrydio'r agenda ADCDF gyda pholisïau a rhaglenni perthnasol, wrth geisio sicrhau gwell mynediad a gwell ymgysylltiad gan y dysgwr. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r cynnydd hyd yma, a'r ffaith bod canllawiau ar gyfer y sectorau addysgol ac, mewn rhai achosion, trefniadau arolwg Estyn ar ADCDF, bellach ar gael hefyd.

**Cam Gweithredu 17** – ***Byddwn yn rhoi rhaglen weithredu ar waith a amlinellir yn y Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys gwarchod ystod o safleoedd eiconig treftadaeth ddiwylliannol Cymru, hyrwyddo technegau cynaliadwy a sgiliau traddodiadol, yn ogystal â sicrhau mynediad ffisegol a deallusol gwell i'r cyhoedd.***

Ym mis Mawrth 2011, fe wnaeth Cadw gyhoeddi cyfres o Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn gynaliadwy. Bydd y rhain yn sail i'n dull o warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn ei gyfanrwydd.

Fe wnaeth Cadw lansio ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2011 ynghylch sefydlu Cofrestr o Feysydd Brwydrau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl am bolisïau arfaethedig Gweinidogion Cymru ar gyfer nodi, gwarchod a rheoli meysydd brwydrau arwyddocaol.

Bu i'r rhaglen waith dan Fenter Treftadaeth Ddiwylliannol Cymru barhau yn 2010-11 i gynnal a hyrwyddo mynediad cyhoeddus i safleoedd canoloesol o bwysigrwydd penodol i hunaniaeth Cymru. Gwnaed llawer o waith cadwraeth yng Nghastell

Deganwy, Castell Sycharth, Glyndyfyrdwy, Llys Rhosor, Senedd Machynlleth a Chastell Nanhyfer.

Mae Cadw hefyd wedi cyflwyno rhaglen waith o'r enw 'Eco-oleuadau' yn ystod 2010-11, gan roi goleuadau LED mewnol newydd mewn canolfannau ymwelwyr, rhoi unedau LED mewn 16 o henebion yng ngofal y wladwriaeth yn lle llifoleuadau, gosod goleuadau LED i oleuo waliau hanesyddol mewn tri tref, a gosod generadur pŵer hydro micro yn Ffwrnais Dyfi, ger Machynlleth. Mae faint o ynni a ddefnyddir, ac allyriadau carbon, eisoes wedi gostwng 53% o ganlyniad i ddisodli'r gwasanaethau.

<u>**Cam Gweithredu 18**</u> **– *Byddwn yn sicrhau y caiff Cymru ei chydnabod yn rhyngwladol fel lleoliad twristiaeth gynaliadwy blaenllaw fel y nodir yn y Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy, drwy ymgorffori amcanion cynaliadwyedd yn ein holl waith o hybu a datblygu twristiaeth erbyn 2011. Bydd adolygiad wedi hynny yn 2014 i adnewyddu'r rhaglen ymrwymiadau.***

Pobl sy'n 'crwydro'n annibynnol' yw'r ymwelwyr nodweddiadol â Chymru yn ôl Croeso Cymru. Mae ganddynt ddiddordeb yn nhreftadaeth, diwylliant, a thirwedd amgylcheddol hanesyddol a naturiol Cymru, yn ogystal â gweithgareddau megis cerdded, seiclo a gweithgareddau antur eraill yn seiliedig ar dreftadaeth naturiol ac adeiledig Cymru.

Yn ôl Arolwg Ymwelwyr 2009

- fe wnaeth 72% o ymatebwyr gefnogi'r datganiad bod dewis cyrchfan gwyliau sy'n cadw ei ddiwylliant a'i dreftadaeth yn bwysig iawn.
- fe wnaeth 3/10 roi sgôr rhagorol i'w gwyliau o ran rhoi 'profiad unigryw o ddiwylliant Cymru' iddynt.
- fe wnaeth 15% ddweud mai golygfeydd, tirwedd a chefn gwlad Cymru oedd y prif resymau dros ymweld â'r wlad.
- fe wnaeth 85% o'r ymatebwyr gytuno'n gryf bod gan Gymru olygfeydd hardd.

Fe wnaeth ein Harolwg Ymwelwyr 2009 hefyd ddangos bod bron i dri chwarter yr ymwelwyr â Chymru yn dewis dod ar eu gwyliau yma am fod y wlad yn cadw ei diwylliant a'i threftadaeth; bod 18% o ymwelwyr o'r DU a 26% o ymwelwyr o dramor yn chwilio am lety sy'n garedig i'r amgylchedd; bod 30% o'r ymatebwyr yn cytuno bod Cymru yn cynnig y cyfle i fynd ar wyliau teuluol sy'n garedig i'r amgylchedd; a bod 25% o'r ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn mynd i fwyty am fod bwyd Cymraeg ar y fwydlen.

Mae canfyddiadau ein harolwg ymwelwyr 2009 yn dangos gwerthfawrogiad o ddiwylliant, tirwedd ac amgylchedd naturiol a ffisegol Cymru. Gan adeiladu ar hyn, rydym yn gobeithio y bydd arolwg ymwelwyr 2011, sydd ar y gweill, yn dangos tuedd cynyddol i Gymru gael ei chydnabod fel cyrchfan gwyliau cynaliadwy.

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL | | | EFFEITHIAU ANUNIONGYRCHOL | Diwydiant |
|---|---|---|---|---|---|
| | ← Dangosyddion sydd ddim yn ariannol → | | | ← Dangosyddion Cwsmer/Cyflenwr → | |
| **Dangosyddion adnoddau, gwastraff a hinsawdd** | **Cyflawniadau** | **Targedau a naratif** | Targed y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy[2] / Gwybodaeth Meincnod | | |
| **Allyriadau**<br>▪ Allyriadau cyfatebol i $CO^2$<br>- Costau cynaliadwyedd<br>- Costau gwrthbwyso<br>- Atebolrwydd - allyriadau cyfatebol i garbon<br>▪ Allyriadau sylweddol eraill<br>- Costau cynaliadwyedd | **Sicrhau Lefel 5 y Ddraig Werdd ar draws yr ystad weinyddol gyfan.** | Cynnal Lefel 5 y Ddraig Werdd neu gyfwerth yn ystod 2011/12 ar draws yr ystad weinyddol. | Adrannau i weithio tuag at system reoli amgylcheddol ardystiedig achrededig megis ISO14001 neu EMAS | Mae caffael cynaliadwy yn hanfodol ar gyfer lleihau ôl troed amgylcheddol y sefydliad a'i gadwyni cyflenwi. Mae ffurfio manyleb i gontractau a rheoli contractau'n effeithiol yn allweddol ar gyfer llwyddo i sicrhau gwell cynaliadwyedd o ran gweithredu busnes ar draws pob maes effaith amgylcheddol. | |
| **Gwastraff**<br>- Costau cynaliadwyedd<br><br>▪ Gwastraff peryglus<br>- Cyfanswm cost gwaredu<br>▪ Gwastraff nad yw'n beryglus<br>- Cyfanswm cost gwaredu<br><br>**Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE)**<br>- Parc Cathays<br>- Swyddfeydd Eraill y Ddraig Werdd | **Cyfanswm y deilliant gwastraff mewn kg fesul $m^2$ wedi gostwng 13% yn erbyn y waelodlin.**<br><br>**67% o wastraff y swyddfa'n cael ei anfon i'w ailgylchu.**<br><br>**Caiff offer TGCh y swyddfa sydd wedi dod i ddiwedd ei oes, ac amrywiol eitemau trydanol gwastraff, eu hanfon i'w hailddefnyddio neu i'w hailgylchu.**<br><br>**Mae'r ganran ailgylchu wedi codi er 2006, ond mae lle o hyd i leihau cyfanswm y gwastraff ac ailgylchu mwy.**<br><br>**Cynnydd o 60% yn faint o fwyd sy'n cael ei ailgylchu ym Mharc Cathays** | Lleihau 5% ar y deilliant gwastraff erbyn 2010 o'i gymharu â lefelau 2006-07 (25% erbyn 2020) fesul FTE [2% y flwyddyn]<br><br>Cynyddu ailgylchu i 80% o'r deilliant gwastraff erbyn 2010 [70% yn 2009 mewn Swyddfeydd Lefel 5] | Lleihau 5% ar y deilliant gwastraff erbyn 2010 o'i gymharu â lefelau 2004-05 (25% erbyn 2020)<br><br>Cynyddu ailgylchu i 40% o'r deilliant gwastraff erbyn 2010 (75% erbyn 2020) | Bu i drafodaeth ynghylch caffael cynaliadwy yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Tachwedd 2008 bwysleisio'r pwysigrwydd a'r gwerth i Lywodraeth Cymru arwain yr agenda cynaliadwy drwy esiampl, gan gynnig ei arferion cynaliadwy ei hun fel y meincnod ar gyfer Cymru.<br><br>Ym mis Ionawr 2009, fe wnaeth Grŵp Busnes Llywodraeth y Cynulliad ailadrodd ei ymrwymiad i wneud Llywodraeth Cymru yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer caffael cynaliadwy, ac i hyrwyddo'r agenda cynaliadwy o fewn Adrannau. Rhoddodd y Grŵp Busnes y dasg o arwain sefydlu prosiect Trawsadrannol i adolygu perfformiad caffael cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad i Gwerth Cymru, yn ogystal â'r dasg o sicrhau gwelliannau drwy integreiddio'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF). | |
| **Defnydd o adnoddau cyfyngedig**<br>▪ Dŵr<br>- Costau gweithredu<br>- Costau cynaliadwyedd | **Mae'r defnydd o ddŵr ym Mharc Cathays wedi gostwng 16.5% yn 2010**<br><br>**Mae'r defnydd o ddŵr ar gyfartaledd ym mhrif swyddfeydd y System Rheoli Amgylcheddol wedi gostwng o 11$m^3$ yn 2009 i 8.4$m^3$ yn 2010** | Lleihau 25% ar y defnydd o ddŵr yn yr ystad weinyddol graidd erbyn 2020, o'i gymharu â lefelau 2006/2007. [2% y flwyddyn mewn Swyddfeydd Lefel 5]<br><br>Ni chaiff swyddfeydd fynd dros | Lleihau 25% ar y defnydd o ddŵr yn ystad y swyddfa, a thu allan i'r swyddfa, erbyn 2020, o'i gymharu â lefelau 2004/2005.<br><br>Mae'r targed ar gyfer ystad y Llywodraeth yn | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | feincnod defnydd blynyddol o ddŵr/FTE o 4m[3] | seiliedig ar astudiaeth annibynnol a wnaed gan CIRIA ar y defnydd o ddŵr mewn swyddfeydd, sy'n awgrymu cyfartaledd o 4m[3] fesul gweithiwr y flwyddyn ar gyfer pob swyddfa | | |
| | | Lleihau defnydd o ddŵr i gyfartaledd o 3m[3] y person/y flwyddyn ar gyfer pob adeilad swyddfa newydd ac mewn achosion o ailwampio swyddfeydd | Lleihau defnydd o ddŵr i gyfartaledd o 3m[3] y pen/y flwyddyn ar gyfer pob swyddfa newydd gaiff ei hadeiladu ac ar gyfer swyddfeydd y gwneir gwaith adnewyddu mawr arnynt | | |
| ▪ Defnydd o ynni<br>- Costau gweithredu<br>- Costau cynaliadwyedd | Mae'r Tîm Rheoli Amgylcheddol gweinyddol wedi datblygu dull cydlynol o leihau allyriadau carbon; drwy fuddsoddi mewn mesurau arbed ynni pwrpasol ac yn y Rhaglen Gwaith Cyfalaf.<br><br>Yn 2010/11 gwnaethom barhau i fuddsoddi mewn prosiectau lleihau carbon drwy ein Rhaglen Rheoli Carbon, ynghyd â phrosiectau a gyllidir drwy Raglen Gwaith Cyfalaf yr Ystad, sydd ag agweddau effeithlonrwydd ynni'n perthyn iddynt.<br><br>Lleihawyd 2.6% ar allyriadau CO2 yr ystad weinyddol yn 2010/11 o'i gymharu â 2009/10, sy'n gyfwerth â 322 tunnell o co2.<br><br>Bu i gymhariaeth o'r cyfnod rhwng 2006/07 a 2010/11 nodi gostyngiad net cronnus o 10.2% mewn allyriadau, sy'n gyfwerth â 1,379 tunnell o co2.<br><br>Mae allyriadau co2 trydan ym Mharc Cathays wedi lleihau 5% er 2009/10.<br><br>Mae 12 Tystysgrif Ynni (DEC) yn cael eu harddangos ym mhrif swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru. Llwyddodd 9 o'r 12 safle i sicrhau gradd D neu uwch. | Lleihad o 30% mewn allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid (CO2e) erbyn mis Rhagfyr 2010 o'r ystad weinyddol graidd a theithio ar gyfer busnes o flwyddyn waelodlin 2006/07[1]. [10% y flwyddyn mewn Swyddfeydd Lefel 5]<br><br>Effeithlonrwydd Ynni i'w ystyried[1] | ALLYRIADAU CARBON O SWYDDFEYDD<br>Newid y duedd gyfredol o ran allyriadau carbon (sy'n codi) erbyn mis Ebrill 2007. Lleihau 12.5% ar allyriadau carbon erbyn 2010-11, o'i gymharu â lefelau 1999/2000. Lleihau 30% ar allyriadau carbon erbyn 2020<br><br>EFFEITHLONRWYDD YNNI ADEILADAU<br>Mae'n rhaid i Adrannau gynyddu 15% ar eu heffeithlonrwydd ynni fesul m[2] erbyn 2010, o'i gymharu â lefelau 1999/2000<br><br>Mae'n rhaid i Adrannau gynyddu 30% ar eu heffeithlonrwydd ynni fesul m[2] erbyn 2020, o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | | |
| Adeiladu a Chynnal a Chadw Adeiladau | Adeiladau newydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno wedi'u hadeiladu i safonau 'Rhagorol' BREEAM.<br><br>Systemau gwresogi biomas a systemau awyru naturiol yn nodweddion allweddol o'r ddau safle. | Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) 'Rhagorol' ar gyfer pob adeilad newydd, a 'da iawn' gan geisio gweithio at 'rhagorol' ar gyfer pob gwaith adnewyddu mawr.<br><br>O 2011 ymlaen, pob adeilad newydd ar ystad weinyddol graidd Llywodraeth Cymru i weithredu'n ddi-garbon. | Rhoi safon ragorol BREEAM, neu gyfwerth, i bob adeilad newydd a gwaith adnewyddu mawr ('da iawn' o leiaf). (Llywodraeth i orchymyn hyn) | | |
| Defnydd Swyddfa a Chaffael<br>- Trydan Adnewyddadwy<br>- Papur<br>- Cyhoeddiadau | Rydym wedi cynnal prosiect i blannu caffael cynaliadwy drwy Lywodraeth Cymru yn ystod 2010. | Bodloni Lefel 5 Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF) erbyn 2009-10 [Lefel 3 erbyn 2008-09] | Elfennau y'u derbynnir o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol y Tasglu Caffael Cynaliadwy | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 79% o gontractau cyflenwi trydan bellach ar dariff gwyrdd (gan gyflenwi 81% o'r trydan a ddefnyddir).<br><br>Mae'r defnydd o bapur 38% yn is nag yn 2006/07<br><br>Bu i'r defnydd dyddiol o bapur wedi'i ailgylchu gynyddu o 73% i 77% yn 2010/11 o'i gymharu â 2009/10.<br><br>Mae ein cyhoeddiadau i gyd yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu. | Rhoi Asesiad Risg Caffael Cynaliadwy (SPRA) ar waith ar bob contract dros £25k<br><br>CYNLLUN GWEITHREDU DATBLYGU CYNALIADWY 04-07<br>Caffael 100% o drydan adnewyddadwy ar draws yr ystad erbyn 2010 | Sicrhau o leiaf 10% o drydan adnewyddadwy (31 Mawrth 08) a 15% o drydan o wres a phŵer cyfunedig (2010) | | |
| **Trafnidiaeth**<br>- Technoleg Cynadledda<br>- Teithiau Gweinidogion<br>Cynllunio Teithiau<br>- Adeilad newydd yn Aberystwyth<br>- Adeilad newydd yng Nghyffordd Llandudno<br>- Cymudo | **Lleihad o 19% mewn allyriadau o ddefnydd preifat o geir.**<br><br>**Bu i allyriadau o deithio mewn awyren leihau 47%, ac o deithio ar drên, 24%**<br><br>Dyma ein blaenoriaethau Teithio i'r Gwaith: gwella'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus; rhannu ceir; hybu cyfleoedd seiclo; datblygu Polisi Parcio.<br><br>Mae ein Polisi Parcio yn cymell pobl i rannu ceir. Neilltuir mannau parcio arbennig ym Mharc Cathays ar gyfer timau rhannu ceir.<br><br>Agorodd ein Cynllun 'Seiclo i'r Gwaith' di-dreth yn ystod 2010/11. | Lleihau 30% ar allyriadau carbon o gerbydau ar y ffordd a ddefnyddir i deithio ar gyfer busnes Llywodraeth Cymru erbyn mis Rhagfyr 2010 o'i gymharu â lefelau 2006/07 [10% y flwyddyn] | ALLYRIADAU CARBON O GERBYDAU AR Y FFORDD<br>Lleihau 15% ar allyriadau carbon o gerbydau ar y ffordd a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau gweinyddol y Llywodraeth erbyn 2010/11 o'i gymharu â lefelau 2005/06 | | |
| ▪ Deunyddiau cyfyngedig eraill<br>- Costau cynaliadwyedd | | | | | |
| Digwyddiadau amgylcheddol<br>- Dirwyon | Nifer | Dim digwyddiad | | | |